

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU	AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 12 CHWEFROR 2019 am 2.00 y. p.	TUESDAY, 12 FEBRUARY, 2019 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

R. Llewelyn Jones (*Is-Gadeirydd/Vice-Chair*), Peter Rogers (*Cadeirydd/Chair*)

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2018.

3 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2017/18 (Tudalennau 15 - 30)

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol am 2017/18.

4 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2017/18 (Tudalennau 31 - 34)

Cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol am 2017/18.

5 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 35 - 52)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

6 MATERION A RISGIAU ARCHWILIO MEWNOL SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW (Tudalennau 53 - 62)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2019/20 (Tudalennau 63 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2019/20 (Tudalennau 103 - 122)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 AMSERLEN CAU CYFRIFON 2018/19 (Tudalennau 123 - 126)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 BLAEN RHAGLEN WAITH (Tudalennau 127 - 132)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

11 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 133 - 134)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”

12 **COFRESTR RISG CORFFORAETHOL** (Tudalennau 135 - 152)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2018

PRESENNOL:	Y Cyngorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Y Cyngorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd) Y Cyngorwyr John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts. Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 3) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cyngorwyr G.O. Jones, Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)
HEFYD YN BRESENNOL:	Mr Alan Hughes a Charlotte Owen (Swyddfa Archwilio Cymru), Prif Archwilydd (EW), Uwch Archwilydd (NW), Uwch Archwilydd (JR)

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION CYFARFOD 19 MEDI, 2018

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar newid y cyfeiriad at 31 Mawrth, 2017 yn y pwynt bwled cyntaf o dan eitem 8.2 i 31 Mawrth, 2018.

Materion yn codi –

- Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 29 Hydref ac fe'i cyflwynir i'r Cyngor Llawn er mwyn ei gymeradwyo ar 11 Rhagfyr 2018.

Nododd y Pwyllgor fod y cylch gorchwyl newydd yn ymestyn ei gyfrifoldebau yn sylweddol; roedd y Pwyllgor yn pryderu nad yw'n cyfarfod â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd a gofynnodd am sicrwydd y bydd modd iddo gyflawni popeth sy'n ddisgwyliedig ganddo o fewn yr amserlen o gyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod canllawiau newydd CIPFA ynghylch swyddogaeth a gweithrediad Pwyllgorau Archwilio mewn sefydliadau llywodraeth leol a'r heddlu wedi cynyddu eu cyfrifoldebau ac o ganlyniad bydd rhaid darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor fydd yn caniatáu iddo gyflawni ei holl gyfrifoldebau goruchwylio. Mae'n annhebygol bod pob pwyllgor archwilio yn cydymffurfio'n llwyr â

chylch gorchwyl CIPFA ar hyn o bryd; mae canllawiau CIPFA hefyd yn cynnwys hunan-arfarniad o arfer dda a bydd y Pwyllgor Archwilio yn ei gwblhau er mwyn sefydlu beth yw ei sefyllfa bresennol; a oes angen darparu hyfforddiant ac er mwyn asesu pa adroddiadau a phapurau fydd y Pwyllgor eu hangen yn y dyfodol er mwyn cyflawni ei rôl oruchwyllo uwch ac i berfformio'n effeithiol. Dywedodd y Swyddog nad oedd hi'n pryderu'n ormodol am y disgwyliadau newydd ar bwyllgorau archwilio mewn perthynas â'r Pwyllgor hwn yn benodol oherwydd proses gam wrth gam fydd ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd a'r bwriad yw cyflwyno'r dyletswyddau newydd yn raddol. Hefyd, mae is-grŵp Partneriaeth Archwilwyr Gogledd a Chanolbarth Cymru (Penaethiaid Archwilio) yn edrych ar y mater o safbwynt datblygu pwyllgorau archwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud yr hyn y mae disgwyl iddynt ei wneud. Bydd yr is-grŵp yn cyfarfod ym mis Ionawr, 2019 ac yn ystyried cynllun gweithredu er mwyn galluogi pwyllgorau archwilio i gydymffurfio'n llawn. Maent yn gweithio ar gynllun rhanbarthol ac un awgrym yw y byddai'n fuddiol i aelodau Pwyllgor Archwilio fynychu cyfarfod pwyllgor archwilio mewn awdurdod lleol arall er mwyn arsylwi arferion mewn pwyllgorau archwilio eraill.

- Nododd y Pwyllgor fod trefn yn arfer bodoli lle 'roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gallu cael cyfarfod preifat gyda'r Archwiliwr Mewnol/Allanol a bod hynny'n ddefnyddiol er mwyn codi materion ac yna adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn ôl yr angen.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Cylch Gorchwyl newydd yn ffurfioli trefniadau i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gwrdd yn breifat ag Archwilio Mewnol ac Allanol heb i Reolwyr fod yn bresennol.

Nodwyd y wybodaeth ac ni chafodd unrhyw gamau gweithredu ychwanegol eu cynnig.

3. ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN – TROSOLWG A CHRAFFU: ADDAS AR GYFER Y DYFODOL?

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Allanol ar ganlyniad yr adolygiad o drefniadau craffu yng Nghyngor Sir Ynys Môn er ystyriaeth gan y Pwyllgor. Roedd yr adolygiad yn archwilio pa mor "addas ar gyfer y dyfodol" yw swyddogaethau pob un o'r 22 cyngor yng Nghymru a pha mor dda mae cynghorau yn ymateb i'r heriau presennol o ran eu gweithgareddau yn ogystal â sut y mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrdau Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn ogystal, roedd yr adolygiad yn archwilio a yw'r cynghorau mewn sefyllfa dda i allu ymateb i heriau'r dyfodol ac yn arbennig pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o weithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

Adroddodd Mr Alan Hughes, SAC, fod yr adolygiad o swyddogaeth craffu Cyngor Sir Ynys Môn wedi canfod fod y Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu a'i fod yn gwneud trefniadau i fodloni heriau'r dyfodol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad hwn oherwydd-

- Mae'r Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae'r trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol yn cael eu rhoi ar waith.
- Mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaen raglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Pwyllgor Gwaith.
- Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd.

Roedd yr adolygiad yn gwneud y ddau argymhelliad a ganlyn ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn ei roi mewn gwell sefyllfa i fodloni heriau'r presennol a'r dyfodol -

- Dylai swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor wella ymhellach trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn gweithgareddau craffu.
- Dylai'r Cyngor ategu ei brofiad drwy hunanasesu pellach, er mwyn ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu.

Mae rhai o'r gwelliannau sydd wedi cryfhau swyddogaeth Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn cynnwys y canlynol -

- Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau craffu Cynghorwyr yn cael eu nodi yn glir yn y Cyfansoddiad ac mae'n cynnwys disgrifiadau swyddogaethau aelodau a chadeiryddion, ac mae'r rhaglen hyfforddi a datblygu aelodau wedi galluogi'r rhai sy'n ymwneud â'r swyddogaeth craffu i ddatblygu dealltwriaeth glir o'u swyddogaethau.
- Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ar sgiliau craffu a chadeirio effeithiol fel rhan o'i raglen gynefino ar gyfer cynghorwyr a rhaglen ddatblygu'r aelodau craffu.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cryfhau trefniadau craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi dechrau craffu ar elfennau o weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys ei gynllun llesiant drafft ym mis Mawrth 2018. Mae cynllun gweithredu'r Rhaglen Gwella Sgrwtini hefyd yn nodi gwaith pellach sydd angen ei wneud mewn perthynas â chraffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn cael ei nodi yn yr adroddiad.
- Mae ansawdd y papurau a welwyd yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau sgrwtini yn gyffredinol dda ac mae'r Templed Adroddiad Sgrwtini yn darparu egwyddorion arweiniol ar gyfer aelodau sgrwtini gan gynnwys cyfeiriadau at bum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae pwyllgorau trosolwg a sgrwtini yn herio aelodau a swyddogion yn rheolaidd ac yn eu dwyn i gyfrif.
- Roedd y cyfarfodydd sgrwtini a arsylwyd fel rhan o'r adolygiad yn cael eu cynnal yn dda.
- Mae'r Cyngor yn arfarnu effeithiolrwydd y swyddogaeth sgrwtini yn rheolaidd ac mae wedi nodi cynnydd da mewn nifer o feysydd. Nodir y rhain yn yr adroddiad.

Dyweddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd fod gwella swyddogaeth Sgrwtini y Cyngor wedi bod yn ymdrech ar y cyd rhwng Swyddogion a Chynghorwyr a'i fod wedi cael ei gyflawni drwy waith tri phanel sgrwtini yn ogystal â'r pwyllgorau sgrwtini. Bydd gwaith i wella a datblygu'r swyddogaeth Sgrwtini yn parhau i adeiladu ar y seiliau a roddwyd mewn lle ac sy'n cael eu cydnabod yn yr adroddiad. Yn ogystal, bydd y Cynllun Gweithredu Gwella Sgrwtini yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu argymhellion yr Adroddiad Archwilio allanol.

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad ac yn ystyried ei fod yn gymeradwyaeth gadarnhaol o'r ffordd y mae'r swyddogaeth Sgrwtini yn cael ei ddatblygu yn y Cyngor ac wrth ystyried y wybodaeth gwnaed y pwyntiau a ganlyn -

- Gofynnodd y Pwyllgor a oes enghreifftiau o arfer dda mewn perthynas â chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn caniatáu i'w safbwyntiau a'u pryderon gael eu clywed yn well wrth graffu ar bolisi a'i ddatblygu.

Nododd y Pwyllgor fod yr Is-bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried gweddarlledu pwyllgorau sgrwtini y Cyngor fel dull o gyrraedd y cyhoedd ond oherwydd y costau ynghlwm â hynny a'r cyfyngiadau ariannol presennol ar y Cyngor, nid oedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymhell hynny ar hyn o bryd. Mae dadansoddiad o'r data hefyd yn dangos fod nifer y bobl sydd yn edrych ar y cyfarfodydd pwyllgor y mae'r Cyngor yn eu darlledu ar hyn o bryd yn isel ar y cyfan oni bai bod y materion dan sylw yn rhai cynhennus.

Dywedodd Mr Alan Hughes, SAC, er nad yw Sgrwtini yn y Cyngor ar ei hôl hi mewn perthynas â'i drefniadau i hyrwyddo ymgysylltiad cyhoeddus mae angen iddo asesu a yw'n gwneud hynny'n ddigon cyson ac a gollwyd cyfleoedd o ran meysydd/pynciau a fyddai wedi elwa o gael gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd. Dylai hyn fod yn rhan o'r ddeialog barhaus ynglŷn â gwella a datblygu swyddogaeth Craffu'r Cyngor ymhellach.

- Nododd y Pwyllgor fod SAC yn argymhell y dylai'r Cyngor ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu. Gofynnodd y Pwyllgor pa fath o arloesi y gellir ei gyflwyno ac a oes tystiolaeth o gynghorau eraill fod angen arloesi.

Dywedodd Mr Alan Hughes, SAC, fod cynghorau yn gweithredu dan bwysau mewn amgylchedd sy'n newid drwy'r amser ac yn ogystal â chreu heriau, mae'n cynnig cyfleoedd i ganfod atebion newydd a gwahanol i'r problemau y maent yn eu hwynebu. Yn ogystal, rhaid i gynghorau fod mewn sefyllfa i ymateb i'r newidiadau hynny. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn datblygu drwy'r amser o ganlyniad i newid technolegol a chynnydd mewn cyfathrebu ac ymwybyddiaeth gyhoeddus drwy'r cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, mae angen edrych i'r dyfodol i weld pa ddulliau y gellir eu defnyddio i wneud y gorau o ymgysylltiad cyhoeddus fel rhan o'r broses graffu.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad archwilio allanol a'i gynigion i wella swyddogaeth Sgrwtini y Cyngor ymhellach.

NI CHYNYGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH

4. ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi diweddariad ar gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â darparu gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd ac adolygiadau a gwblhawyd.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio a Risg y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Cwblhawyd dau adroddiad adolygu archwilio yn ystod y cyfnod sef un yn ymwneud â Threfniadau Casglu Incwm Ysgolion a dderbyniodd farn Sicrwydd Cyfyngedig a'r llall yn ymwneud â Thwyll Tocynnau Teithio Rhatach a dderbyniodd farn Sicrwydd Rhesymol.
- Cynhaliwyd yr adolygiad **Twyll Tocynnau Teithio Rhatach** yn dilyn adroddiadau yn y wasg am dwyll yn erbyn Cyngor Gwynedd a chafwyd perchnogion dau gwmni bysiau yn euog o droseddau yn cynnwys cynllwynio i gyflawni twyll trwy wybodaeth ffug. Gwnaed ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd a Gwasanaeth Cludiant y Cyngor er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i'r twyll hwn. Roedd un o'r cwmnïau wedi gweithredu dau gontract gyda'r Cyngor yn ad-dalu tocynnau teithio rhatach ond nid oeddent yn llwyddiannus pan wnaeth y Cyngor ail-dendro'r contractau yn 2015. Nid oedd y cwmni arall wedi derbyn unrhyw daliadau ers Mehefin, 2014. Yn ogystal, mae'r mesurau rheoli canlynol mewn lle a ddylai sicrhau fod llai o risg i'r Cyngor wrth ad-dalu tocynnau rhatach –

- Mae Cyngor Sir y Fflint, ar ran holl Gyngorau Gogledd Cymru, yn darparu adroddiadau cryno yn uniongyrchol o'r system Wayfarer i gefnogi ad-dalu hawliadau ar gyfer tocynnau rhatach rhag i'r contractwyr allu ymyrryd â nhw. Mae Gwasanaeth Trafnidiaeth y Cyngor yn gwirio pob cais am docynnau rhatach a gyflwynwyd gan y gweithredwr bysiau yn erbyn yr adroddiadau.
- O fis Gorffennaf 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru adroddiadau system fisol manwl er mwyn i Gyngorau allu monitro gweithgaredd cardiau clyfar. Mae'r system adrodd newydd yn golygu bod y Cyngor yn gallu canfod unrhyw anghysonderau ac ymchwilio iddynt, ac felly mae llai o risg o golledion yn sgil hawliadau rhy uchel neu dwyllodrus ar gyfer ad-dalu tocynnau rhatach.
- Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y cynllun "Dywedwch Wrthym Unwaith" ac mae'n canslo cardiau pan fydd rhywun yn marw. Mae'r Cyngor yn cadw cardiau wedi'u difrodi ac os dywedir wrth y Cyngor bod cerdyn ar goll mae'n cael ei ganslo.
- Cynhaliwyd yr adolygiad Archwilio Allanol o **Drefniadau Casglu Incwm Ysgolion** yn dilyn cais gan y Pennaeth Dysgu blaenorol o ganlyniad i amryw o bryderon ynghylch prosesau casglu incwm ysgolion. Ymwelwyd â thair ysgol gynradd fel rhan o'r archwiliad. Canfu'r adolygiad bod polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud ag incwm wedi dyddio; anghysondebau ynghylch rhoi cyfrif am incwm; diffyg monitro corfforaethol, trefniadau monitro dyledion yn amrywio o ysgol i ysgol; trefn lywodraethu wan ar gyfer cronfeydd ysgolion a systemau rheoli mynediad amhriodol. Roedd y rhan fwyaf o'r gwendidau a ganfuwyd yn y prosesau casglu incwm a fabwysiadwyd gan ysgolion yn deillio o ddiffyg gwybodaeth a hyfforddiant, h.y. nid yw'r Gwasanaeth Dysgu wedi cyflwyno polisïau cyfredol i ysgolion, wedi'u cefnogi gan weithdrefnau a hyfforddiant. Hefyd, mae diffyg monitro cydymffurfiaeth gorfforaethol gan y Gwasanaeth Dysgu yn golygu bod y Cyngor yn agored i risgiau.
- Cwblhawyd pedwar adolygiad dilyn i fyny adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig yn ystod y cyfnod yn ymwneud â Dyledwyr Amrywiol (graddfa Sicrwydd Cyfyngedig yn parhau); Fframwaith Caffael Corfforaethol (uwchraddiwyd i Sicrwydd Rhesymol); Paratodau'r Cyngor ar gyfer GDPR (uwchraddiwyd i Sicrwydd Rhesymol) a Diogelu Corfforaethol (uwchraddiwyd i Sicrwydd Rhesymol).
- Canfu **adolygiad Dilyn i Fyny cyntaf Dyledwyr Amrywiol**, er bod y Tîm Dyledwyr wedi gwneud gwaith sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'r materion a'r risgiau a godwyd yn yr adolygiad gwreiddiol, yn cynnwys gweithredu newidiadau sylweddol i systemau ar yr un pryd â chynnal y llwyth gwaith dyddiol, ond mewn sawl achos nid oedd hynny'n ddigonol i fynd i'r afael yn llawn â'r risg ac felly mae'r raddfa Sicrwydd Cyfyngedig yn parhau. O'r 19 o faterion/risgiau a godwyd yn ystod yr adolygiad archwilio gwreiddiol, mae'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi goddef un risg isel yn ymwneud ag ad-daliadau a risg o dwyll; mae 5 wedi cael sylw, 11 yn y broses o dderbyn sylw ac nid yw gwaith wedi cychwyn ar 2. Os yw gwaith wedi dechrau ac wedi lleihau'r tebygolrwydd o risg yn codi, adlewyrchwyd hynny yn y raddfa risg. Bydd Archwilio Mewnol yn ailymweld â'r gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2019 er mwyn monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â'r risgiau.
- Cynhelir ail adolygiad dilyn i fyny cyn diwedd y flwyddyn ariannol mewn perthynas â'r tri adroddiad â graddfa Sicrwydd Cyfyngedig. Yr adroddiadau yw Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus; (Ymweliad Dilynol yng Ngorffennaf, 2018), Safonau Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu (Ymweliad Dilynol yn Hydref, 2018), a Rheoli Systemau - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau (Ymweliad Dilynol yn Rhagfyr, 2018). Mae'r tri adolygiad dilyn i fyny ar y gweill ar hyn o bryd.
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn raddol wrth fynd i'r afael â materion/risgiau a godwyd yn ystod archwiliadau a gynhaliwyd yn 2017/18 ac mae wedi parhau i gynnal perfformiad da yn ystod dau chwarter cyntaf 2018/19. Bydd fersiwn newydd wedi ei

ddiweddaru o'r system olrhain camau gweithredu ar gael yn fuan, sydd yn darparu swyddogaethau ychwanegol ac yn lleihau'r baich gweinyddol.

- Ers penodi'r ddau Uwch Archwiliwr newydd, mae gwaith ar y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol wedi gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, oherwydd i'r swyddi fod yn wag cyhyd, ymchwiliadau hir, gwaith dilynol sylweddol ac absenoldeb mamolaeth y trydydd Uwch Archwiliwr, bydd yn anodd cyflawni'r targed o roi sylw i 80% o risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y gofrestr risg corfforaethol. Hyd yma rhoddwyd sylw i 29% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y gofrestr risg ac mae gwaith yn digwydd yn y 7 maes a restrwyd ym mharagraff 42 yr adroddiad. Os nad yw'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys dyddiad targed ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor, mae hynny oherwydd y rhagwelir na fydd unrhyw waith yn cael ei wneud ar y meysydd hynny – efallai bod gwaith arall yn cael ei wneud yn y meysydd hyn e.e. gwaith gweithredu systemau ar y gweill mewn perthynas â'r Gyflogres y bydd rhaid eu sefydlu'n gadarn cyn y gall Archwilio Mewnol adolygu'r maes neu efallai nad yw maes yn flaenoriaeth ar hyn o bryd neu efallai bod maes yn destun gwaith rheoleiddio/goruchwyllo arall e.e. Rhaglen Ynys Ynni/Wylfa Newydd y mae llawer o graffu arnynt gan ffynonellau eraill oherwydd eu harwyddocâd.
- Mae yswirwyr y Cyngor, Zurich Municipal, wedi cynnal Archwiliad Iechyd Rheoli Risg annibynnol. Mae'r canlyniad yn debyg iawn i'r disgwyl gydag ychydig o gyfleoedd i wella. Bydd adroddiad yr Ymgynghorwyr Risg Strategol ynghyd â'r cynllun gweithredu gwelliannau yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau.
- Yn ystod y chwarter olaf, mae Archwilio Mewnol wedi bod yn gofyn am, casglu, adolygu ac uwchlwytho'r holl ddata angenrheidiol ar gyfer Ymarferiad y Fenter Twyll Genedlaethol 2018/19 - ymarfer bob dwy flynedd sydd yn cydweddu data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion sydd o bosib yn dwyllodrus neu'n anghywir. Ymarferiad y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2016/17 oedd y mwyaf llwyddiannus hyd yma ac yn barod canfuwyd twyll a gordaliadau gwerth £5.4m yng Nghymru a £301m ar draws y DU.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor fod y twyll tocynnau teithio rhatach yn erbyn Cyngor Gwynedd wedi amlygu problem sydd yn creu risg sylweddol. Gofynnodd y Pwyllgor a oes data ar gael mewn perthynas â defnydd ar hyn o bryd ac yn y gorffennol ar draws awdurdodau.

Dywedodd Mr Alan Hughes, SAC, er nad oedd modd iddo gadarnhau hynny, ei fod ar ddeall fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad i sefydlu a yw'r broblem a ddaeth i'r amlwg yng Ngwynedd yn ehangach na hynny. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i weld a oes rhagor o wybodaeth ar gael, o ystyried mai Llywodraeth Cymru sydd yn cyllido'r Cynllun Teithio Rhatach Cymru Gyfan.

- Mewn perthynas â'r archwiliad o drefniadau Casglu Incwm Ysgolion nododd y Pwyllgor fod y materion/risgiau a godwyd yn ymwneud ag arian yn bennaf. Gofynnodd y Pwyllgor oni ddylai'r Gwasanaeth Cyllid yn hytrach na'r Gwasanaeth Dysgu arwain y gwaith o fynd i'r afael â'r materion hynny gan y byddai'n disgwyl i'r Gwasanaeth Cyllid fod â mwy o arbenigedd mewn perthynas â phrosesau casglu incwm ac felly'r gwasanaeth hwnnw fyddai'n gallu datrys y broblem orau.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, er bod cyfrifoldeb am gasglu incwm yn disgyn ar y Swyddog Adran 151 yn y pendraw, mae'r ffaith bod ysgolion yn cael eu cynnwys yn cymhlethu'r mater. Gan fod ysgolion yn endidau cyfreithiol ynddynt eu hunain a'u bod â lefelau gwahanol o gefnogaeth weinyddol, mae'n anodd sefydlu proses sy'n gweithio yn yr un ffordd i bawb. Yn y

gorffennol, roedd incwm yn cael ei gasglu â llaw, ac er ei bod yn broses lafurus mae'n ddull profedig; fodd bynnag, mae cyflwyno'r system School Comms a thaliadau heb arian mewn rhai ysgolion yn cymhlethu'r system yn yr ystyr ei bod yn anoddach cysoni'r incwm a gesglir gan ysgol gyda thaliadau a wneir yn ddigidol ar y system School Comms lle nad yw ysgol wedi trin unrhyw arian. Cyflwynwyd y system gydag arian grant ond nid oedd yn ddarostyngedig i unrhyw adolygiad pellach ac er nad yw'r archwiliad wedi canfod unrhyw broblemau yn yr ystyr bod arian wedi mynd ar goll mae'r anghysonderau a'r amrywiadau ynghyd â'r diffyg goruchwyliaeth a system fonitro gorfforaethol yn golygu nad oes modd rhoi sicrwydd nad yw'r Cyngor mewn perygl o gollu arian o ganlyniad i broblemau gyda'r broses gysoni. Mae'n fater i'r Gwasanaeth Cyllid sicrhau fod camau rheoli priodol yn cael eu rhoi mewn lle, a gyda mewnbwn gan y Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion, yn llunio proses sydd yn gweithio i bawb, y mae pawb yn ei deall ac sy'n darparu'r sicrwydd angenrheidiol.

- Nododd y Pwyllgor yr ymwelwyd â thair ysgol yn unig fel rhan o'r archwiliad; gofynnodd y Pwyllgor sut y penderfynwyd ar y sampl hwn ac a yw'n bosib ei ystyried yn sampl cynrychioliadol.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr ymweliad archwilio wedi targedu ysgol newydd a oedd wedi defnyddio'r system am gyfnod byr yn unig; ysgol oedd wedi bod yn defnyddio'r system am amser hir a ble y byddai disgwyl i'r broses fod wedi gwreiddio ac ysgol lle'r oedd problemau yn hysbys. Roedd y canlyniadau gwahanol ym mhob un o'r ysgolion a archwiliwyd yn cadarnhau'r diffyg cysondeb y gellir tybio ei fod yn cael ei ailadrodd yng ngweddill yr ysgolion. Y materion craidd yw bod y feddalwedd wedi cael ei arsefydlu heb ddarparu hyfforddiant a chanllawiau cyfatebol ac yn ogystal â hynny mae'r system wedi cael ei sefydlu i wneud gwahanol bethau mewn gwahanol ysgolion. Fodd bynnag, dywedodd y Swyddog bod y Swyddog Cefnogi Busnes Ysgolion sydd newydd gael ei phenodi a'i chynllun gweithredu ar gyfer rhoi sylw i'r mater a mynd i'r afael â'r risgiau/materion a nodwyd yn rhoi sicrwydd iddi.

Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod bod y sefyllfa a amlygwyd gan yr adolygiad archwilio yn annerbyniol ond dywedodd ei fod yntau hefyd wedi ei galonogi gan y Cynllun Gweithredu cynhwysfawr a rhoddodd sicrwydd i aelodau y byddai'n cael ei weithredu.

Nododd y Pwyllgor mai un wers i'w dysgu o'r adolygiad archwilio o drefniadau casglu incwm ysgolion yw bod angen adolygu prosiectau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, pa un ai ydynt yn cyflwyno system newydd ai peidio, ac yn yr achos hwn byddai wedi helpu i nodi'r problemau yn gynharach a chaniatáu iddynt gael sylw mwy amserol. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor a oedd data meincnodi ar gael ar gyfer casglu incwm prydau ysgol a fyddai'n helpu'r Pwyllgor i gael darlun o'r sefyllfa.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n ceisio darparu'r wybodaeth.

- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas ag Adolygiad Dilyn i Fyny Cyntaf Dyledwyr Amrywiol, bod bron i ddwy flynedd o fwch rhwng yr adolygiad Archwilio Mewnol gwreiddiol ym mis Tachwedd 2017 a'r Ail Adolygiad Dilyn i Fyny y bwriedir ei gynnal ym mis Gorffennaf 2019 ac roedd o'r farn fod hyn yn gyfnod rhy hir i fynd i'r afael â'r materion a'r risgiau a godwyd. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos fod diffyg capasiti wedi atal y Tîm Dyledwyr rhag gwneud mwy o gynnydd a gofynnodd a oedd achos dros gael mwy o adnoddau. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor, oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor a'r angen parhaus i ganfod arbedion, a ddylai gwneud y mwyaf o incwm, casglu incwm ac adennill dyledion fod yn flaenoriaeth.

Esboniodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y buddsoddiad ar raddfa fawr mewn systemau yn cynnwys Dyledwyr, Casglu Arian a Chyfrifo, y Dreth Gyngor a Budd-daliadau Tai a wnaethpwyd gan y Gwasanaeth Cyllid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cynnwys yn benodol y timau Casglu Dyledion ac Incwm. Yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd, ailstrwythurwyd y staff yn gyfan gwbl ac mae hynny ynddo'i hun wedi bod yn broses hir. Ar ôl gwella'r System Dyledwyr a chyrraedd pwynt lle mae'r drefn yn gweithio'n weddol dda gydag anfonebau yn cael eu codi yn brydlon a'r tîm yn gweithio ar darged 3 diwrnod ar gyfer awdurdodi dyledwyr newydd, mae'r Gwasanaeth Cyllid yn edrych yn awr ar drosglwyddo'r tasgau hynny i'r gwasanaethau eu hunain eu cyflawni. Er bod ôl-groniad yn parhau ac mae'r tîm yn gweithio drwyddynt mae prosesau mewn lle erbyn hyn i sicrhau nad yw'r ôl-groniad yn cynyddu. Elfen arall yn gysylltiedig â'r broses yw'r system arian barod ac mae meddalwedd newydd gyda mwy o swyddogaethau yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd. Mae hyn o ganlyniad i fid llwyddiannus am adnoddau o dan y fenter Buddsoddi i Arbed lle mae arian yn cael ei ryddhau ar gyfer prosiectau sydd yn gwella prosesau busnes y Cyngor a nod y system arian parod newydd yw gwella taliadau ar-lein ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau. Cafwyd peth oedi o ran gweithredu'r system oherwydd cymhlethdodau o ganlyniad i systemau meddalwedd deuol. Fodd bynnag, pan fydd y dulliau talu amgen a gynlluniwyd wedi eu sefydlu h.y. ar-lein, tôn cyffwrdd - bydd yn rhyddhau adnoddau ar gyfer cyflawni tasgau eraill o fewn y Timau Incwm a Dyledwyr. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gwnaed llawer o gynnydd a phan fydd y gwaith wedi'i gwblhau dylai'r gwelliannau a'r systemau newydd ganiatáu i'r Gwasanaeth gyfeirio adnoddau lle bod eu hangen ac i ddelio â materion cyn i broblemau godi.

Mewn perthynas â dyledion heb eu casglu ac adennill dyledion, dywedodd y Swyddog fod y Cyngor wedi casglu cyfanswm o £15.7m drwy'r system Dyledwyr yn 2017/18 neu 11,500 o anfonebau. Ar ddiwedd Chwarter 2 y flwyddyn ariannol bresennol roedd dyledion o tua £4m heb eu casglu ac roedd £2.3m o'r cyfanswm hwnnw yn ddyledion dros 120 diwrnod oed. Gallai'r ffigwr hwn gynnwys un neu ddau o ddyledion mawr gan gyrrff cyhoeddus fydd yn lleihau'r swm yn sylweddol pan gaiff yr arian ei dalu. Yn ogystal, ailstrwythurwyd y Tîm Adennill ac mae swyddog wedi cael ei recriwtio ar sail perfformiad sydd â'r dasg o ddelio gyda hen ddyledion, hyd at £1.5m yn y lle cyntaf. Hyd yma mae'r swyddog wedi delio gyda dros £500k o ddyledion a chasglwyd £250k o'r swm hwnnw. Felly, mae adnoddau ychwanegol yn cael eu clustnodi ar gyfer casglu dyledion oherwydd ei bod yn hysbys y bydd yr arian a gesglir yn uwch na chost cyflogi swyddog i wneud y gwaith.

- Mewn perthynas ag Ail Adolygiad Dilyn i Fyny y Fframwaith Caffael Corfforaethol, nododd y Pwyllgor nad yw 6 o'r 20 mater/risg a godwyd yn yr adolygiad gwreiddiol ym Medi 2017 wedi derbyn sylw a nododd hefyd fod y Rheolwr Caffael Corfforaethol wedi ymestyn y dyddiadau terfyn ar gyfer mynd i'r afael â'r risgiau sy'n weddill. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd nad yw'r materion sy'n weddill yn effeithio ar effeithlonrwydd y broses.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y trefniadau sy'n caniatáu i reolwyr ymestyn dyddiadau gweithredu wedi cael eu dileu erbyn hyn. Aeth y Swyddog ymlaen i amlinellu'r meysydd y mae'r materion yn weddill yn ymwneud â nhw sydd yn cynnwys llwytho'r Gofrestr Contractau Canolog ar wefan allanol, a nododd bod oedi wedi digwydd gyda'r gwaith hwn oherwydd gwaith ail-gyflunio ar y wefan; adolygu Rheolau Gweithdrefn Contract a sefydlu cyfres o Ddangosyddion Perfformiad i fesur effeithiolrwydd gweithgareddau caffael.

Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r GDPR, er bod trefniadau'r Cyngor yn rhoi sicrwydd Rhesymol erbyn hyn, roedd Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod blaenorol y Pwyllgor yn amlygu'r ffaith nad oedd

oddeutu 50% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu diogelu data. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd fod gwaith ar y gweill i sicrhau fod pob aelod o staff yn cyflawni'r gofyn hwn. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod y GDPR wedi bod yn problem i ysgolion a bod y Cyngor wedi cael trafferth recriwtio Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau fod eu staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu data a'u bod yn derbyn adroddiadau yn nodi nifer y staff sydd wedi gwneud hynny. Mae'r swyddogaeth Clicio i Dderbyn o fewn y Porth Polisi yn rhoi sicrwydd fod polisïau yn cael eu darllen a'u derbyn gan staff unigol. Mewn perthynas ag ysgolion, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwirio sefyllfa Llywodraethu Gwybodaeth mewn ysgolion yn ystod Chwarter 4 2018/19 a bydd yn edrych ar ddiogelu data.

Penderfynwyd, yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ac eglurhad gan Swyddogion, bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn ac yn nodi cynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant.

CAMAU GWEITHREDU PELLACH A GYNIGIWDYD: Y Pennaeth Archwilio a Risg i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor -

- **Data ar ddefnydd presennol o docynnau teithio rhatach a defnydd yn y gorffennol**
- **Data meincnodi mewn perthynas â chasglu incwm prydau ysgol**

5. ARCHWILIO ALLANOL: ADOLYGIAD DILYNOL O GYNIGION AR GYFER GWELLA – CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, yr adroddiad Archwilio Allanol ar ganlyniad adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn ystyried a yw'r Cyngor yn gwerthuso i ba raddau y mae ei gamau gweithredu yn cyfrannu at gyflawni perfformiad gwasanaeth a chanlyniadau gwell i ddinasyddion.

Adroddodd Charlotte Owen, SAC, fod yr Archwiliwr Cyffredinol wedi cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor ym mis Rhagfyr 2015. Daeth yr adroddiad, a oedd yn cynnwys canfyddiadau o Asesiad Corfforaethol 2015, i'r casgliad bod hunanymwybyddiaeth y Cyngor a'i hanes o wella trefniadau llywodraethu a rheoli yn debygol o'i helpu i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015/16. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 6 chynnig ar gyfer gwella y manylir arnynt yn yr adroddiad uchod. Er mwyn cael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella, ym mis Mehefin 2018 adolygodd SAC y cynnydd yr oedd y Cyngor wedi'i wneud wrth weithredu ar y cynigion hynny ar gyfer gwella ac effeithiolrwydd ei drefniadau i wneud hynny. Canfu'r adolygiad fod gan y Cyngor brosesau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru ond y gellid cryfhau trefniadau er mwyn rhoi mwy o sicrwydd o ran cynnydd i aelodau etholedig. Daeth yr adolygiad i'r casgliad hwn oherwydd –

- Mae gan y Cyngor drefniadau boddhaol ar gyfer ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond nid yw aelodau etholedig yn cael gwybod yn gyson am gynnydd; ac

- Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn yr adroddiadau dethol.

Mae'r adroddiad yn gwneud y cynigion a ganlyn ynglŷn â sut y gallai'r Cyngor wella ei drefniadau ar gyfer ymateb i gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion -

- Sicrhau bod aelodau etholedig yn derbyn gwybodaeth am gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, a chynnydd y Cyngor yn ymwneud â nhw drwy:
 - Ddosbarthu holl adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er gwybodaeth, ac
 - Adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gynnydd a wnaed tuag at gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru sy'n weddill.

Wrth dderbyn yr adroddiad a'i gynigion, nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r sylwadau ynglŷn â'r Gwasanaeth TGCh, fod yr argymhelliad sy'n weddill yn dilyn yr adolygiad allanol Gwasanaeth TGCh yn ymwneud â defnyddio trefniadau rheoli prosiectau corfforaethol mewn prosiectau sy'n ymwneud â thechnoleg. Ni chafodd yr argymhelliad ei weithredu oherwydd bod y Cyngor yn penderfynu ar ei ddull o reoli prosiect. Nododd y Pwyllgor yn ogystal ei fod wedi nodi yn y gorffennol pa mor ddefnyddiol yw mewnbyn rheoli prosiect wrth weithredu argymhellion Archwilio Mewnol fel modd o gydlynu'r ymateb i weithredu cynigion ar gyfer gwella gan Archwilio Mewnol a thrwy hynny leihau'r oedi a all ddigwydd yn arbennig mewn adolygiadau cymhleth neu draws-wasanaeth neu os yw adolygiadau yn cynnwys nifer fawr o swyddogion.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad archwilio allanol a'i gynigion i wella ymhellach drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i gynigion gwella ac argymhellion SAC.

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH.

6. RHEOLI TRYSORLYS: ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2018/19

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori adolygiad o sefyllfa a gweithgareddau Rheoli Trysorlys canol blwyddyn ariannol 2018/19 yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y prif bwyntiau canlynol -

- Roedd gan y Cyngor £6.089m o fuddsoddiadau ar 30 Medi, 2018 a'r enillion o'r portffolio buddsoddiadau am 6 mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.65%. Mae rhestr lawn o fuddsoddiadau ar 30 Medi, 2018 i'w weld yn Atodiad 3 yr adroddiad.
- Ni thorrwyd y terfynau a gymeradwywyd o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol yn ystod 6 mis cyntaf 2018/19.
- Mae'r Cyngor wedi cyllidebu y bydd yn derbyn incwm o £0.017m o'i fuddsoddiadau ar gyfer 2018/19 ar ei hyd; mae perfformiad am y flwyddyn hyd yma'n uwch na'r gyllideb, gyda £0.023m wedi'i dderbyn ar ddiwedd Chwarter 2. Y rheswm am hyn yw'r cynnydd yn y gyfradd banc o 0.5% i 0.75% a ddigwyddodd yn Awst 2018.
- Ni fenthycwyd unrhyw arian yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen benthycia arian yn ystod ail hanner y flwyddyn.
- Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, roedd benthyciad tymor byr gan y Tyne & Wear Pension Fund ym mis Ionawr 2018 yn aeddfedu ac ad-dalwyd y benthyciad ym mis Ebrill 2018.

- Mae cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi bod yn gyfyngedig iawn yn yr hinsawdd economaidd bresennol fel y manylir ym mharagraff 6.4 yr adroddiad. Ni aildrefnwyd unrhyw ddyledion hyd yma yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Ers i Chwarter 2 ddod i ben, mae'r Awdurdod wedi trefnu i fenthycu £5m gan Gyngor Sir Gogledd Efrog. Bydd y benthyciad yn digwydd o 16/10/18 hyd at 16/01/19 ar gyfradd o 0.85%. Mae'r penderfyniad hwn yn unol â'r strategaeth fenthycu bresennol, sef cymryd benthyciadau tymor hirach dim ond pan ydym angen yr arian yn hytrach na benthycu i fanteisio ar gyfraddau benthycu isel yn unig, am fod y gost o wneud hynny'n rhy uchel.
- Mae Adran 7 yr adroddiad yn dangos sefyllfa a pherfformiad cyfalaf y Cyngor mewn perthynas â'r Dangosyddion Darbodus allweddol, yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gwariant cyfalaf (Tabl 7.2 yn yr adroddiad).
- Mae Tabl 7.4.3 yr adroddiad yn dangos y Gofyniad Cyllido Cyfalaf, sef angen allanol sylfaenol i fenthycu at ddibenion cyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf gwreiddiol a ragwelwyd oherwydd y tanwariant a ragwelir o ran benthycu, o ganlyniad yn bennaf i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r dull cyllido diwygiedig ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol.
- Mae'r Awdurdod hefyd yn cadw o fewn y Terfyn Gweithredol sydd yn dangos y lefel dyled disgwyliedig yn ystod y cyfnod. Y swm benthycu agoriadol ar gyfer 2018/19 oedd £117.778m a rhagwelir y bydd y swm yn £125.623m erbyn diwedd y flwyddyn ac mae yn gyfforddus o fewn y terfyn gweithredol o £172m a nodir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.
- Mae Adran 7.5 yr adroddiad yn nodi sefyllfa'r Awdurdod mewn perthynas â benthycu gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf. Er mwyn sicrhau na fydd benthycu net ond yn cael ei wneud at ddibenion cyfalaf dros y tymor canol, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw benthycu allanol gros, heblaw yn y tymor byr, yn codi uwchlaw GCC y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrif o GCC ychwanegol y bydd ei angen ar gyfer 2018/19 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Ni ragwelir unrhyw broblemau o ran cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn ystod y flwyddyn bresennol, fel y dengys Tabl 7.5.1.
- Mae dangosydd darbodus pellach yn rheoli'r lefel fenthycu gyffredinol, sef y Terfyn Awdurdodedig, ac ni chaniateir cymryd benthycu mwy na'r swm hwn. £177m yw'r swm ar hyn o bryd ac mae'n adlewyrchu lefel y benthycu fyddai'n fforddiadwy, ond ddim yn ddelfrydol, yn y tymor byr ond a fyddai'n anghynnaladwy yn y tymor hir. Sefyllfa fenthycu'r Cyngor ar 30 Medi, 2018 oedd £112,558m.

Wrth ystyried yr adroddiad gwnaeth y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor bod disgwyl i'r rhaglen gyfalaf danwario unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn; gofynnodd a oes angen mabwysiadu agwedd fwy gofalus mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod nifer o brosiectau yn y rhaglen Gyfalaf, rhai ohonynt ar raddfa fawr, y tu allan i reolaeth yr Awdurdod e.e. gwelliannau i'r A5025 i'r Wylfa, Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Seilwaith Strategol Caergybi, wedi'u gohirio am resymau amrywiol, yn cynnwys gorfod aros am gymeradwyaeth gan arianwyr ac oedi cyn rhoi caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth yn y tanwariant yn y gyllideb gyfalaf fydd yn arwain at gollu cyllid allanol ac nid yw'n achosi pryder. Os oes angen gwario swm penodol er mwyn hawlio arian grant, yna mae'r Awdurdod yn sicrhau bod y gwariant angenrheidiol yn digwydd.

- Nododd y Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi bod yn defnyddio arian wrth gefn i gyllido cyfran o'i wariant cyfalaf er mwyn lleihau ei fenthycu ar y sail bod cost benthycu yn

uwch na'r enillion petai'r arian parod yn cael ei roi mewn cyfrif cadw. Gofynnodd y Pwyllgor am ba hyd y gall y Cyngor gynnal y polisi hwn.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr arian parod ym meddiant y Cyngor yn cyd-fynd â'r cronfeydd a gefnogir gan arian parod h.y. y Gronfa Gyffredinol, Cronfeydd wedi'u Clustnodi, balansau Ysgolion a balans y CRT. Wrth i'w sefyllfa ariannol waethygu, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei arian wrth gefn ac o ganlyniad mae lefel yr arian wrth gefn sydd gan y Cyngor wedi lleihau gan olygu bod llai o arian parod yn y busnes. O ganlyniad mae'r amser yn dynesu pan fydd rhaid i'r Cyngor fenthyca yn allanol yn hytrach na defnyddio ei falansau arian parod, neu byddant wedi prinhaus. Nid yw hynny'n golygu bod y Cyngor mewn unrhyw drafferthion ariannol ond yn hytrach ei fod angen ail-lenwi ei falansau arian parod drwy fenthyca allanol. Gwnaethpwyd hyn yn barod ar raddfa lai a dros gyfnod byr; fodd bynnag, erbyn hyn mae'n rhaid atgyfnerthu balansau arian parod y Cyngor drwy fenthyca allanol sydd yn debygol o olygu cymryd benthychiad o £10m neu £15m dros gyfnod ad-dalu o rhwng 5 a 10 mlynedd.

- Nododd y Pwyllgor fod derbyniadau cyfalaf o ganlyniad i werthu hen adeiladau ysgol yn rhan o gyfraniad y Cyngor at gyllido Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Nododd y Pwyllgor hefyd nad yw marchnata a gwerthu'r asedau hynny bob amser yn amserol ac y gallai gwerthu'r asedau leihau anghenion benthyca a chostau benthyca'r Cyngor sydd yn cael eu hychwanegu at y gyllideb Refeniw.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod rhaid ystyried yr amseru er mwyn derbyn y pris uwch wrth gael gwared ar asedau. Weithiau, golyga hynny ddal gafael ar yr ased am gyfnod o amser nes bod y farchnad yn codi, yn arbennig os yw'r gwerthiant yn golygu gwerthu mwy nag un o'r un math o ased mewn ardal benodol e.e. ysgolion, lle y gallai gwerthu'r asedau ar wahanol gyfnodau gynhyrchu mwy o incwm.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad adolygiad Rheoli Trysorlys canol blwyddyn heb gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol.

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH

7. ARCHWILIO ALLANOL: LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2017/18

Ymddiheurodd Mr Alan Hughes, SAC, i'r Pwyllgor am beidio â chyflwyno Llythyr Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn 2017/18 i'r cyfarfod; mae oedi mewn perthynas â Llythyr Ynys Môn ynghyd ag ambell i gyngor arall o ganlyniad i ymarferiad cymedroli yn ymwneud â phrosesau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwirio cynnwys sy'n ymwneud â phob cyngor. Disgwylir y bydd y Llythyr Archwilio yn cael ei gwblhau yn fuan ond yn anffodus ni wnaethpwyd hynny mewn pryd ar gyfer y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, bydd y llythyr yn cael ei anfon at y Cyngor ddiwedd yr wythnos hon neu ddechrau'r wythnos nesaf. Disgwylir y bydd y Llythyr Archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 yn cyfeirio at yr her y mae cynghorau ar draws Cymru yn ei wynebu ac mae'r oedi yn rhannol oherwydd yr angen i gytuno ar sut i eirio'r neges hon.

Wrth dderbyn yr esboniad am absenoldeb Llythyr Archwilio 2017/18 a nodi nad yw'r oedi o ganlyniad i unrhyw broblem yn ymwneud â'r Cyngor hwn, mynegodd y Pwyllgor ei siom na fydd nawr yn gweld y Llythyr tan ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2019, sydd yn agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, ac roedd y Pwyllgor o'r farn fod yr oedi hwnnw yn ormodol.

Cadarnhaodd Mr Alan Hughes y byddai'n cyfleu pryderon y Pwyllgor i Swyddfa Archwilio Cymru ond dywedodd, er ei bod yn arferiad gan Ynys Môn i gyflwyno'r Llythyr Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, nid yw pob cyngor yn gwneud hynny.

Penderfynwyd derbyn yr esboniad am yr oedi wrth gyflwyno Llythyr Archwilio 2017/18 Ynys Môn.

NI CHYNYGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH

8. BLAEN RAGLEN WAITH 2018/19

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor er mwyn ei hadolygu neu gyflwyno sylwadau arni.

Penderfynwyd nodi a derbyn y Blaen Raglen Waith yn amodol ar gynnwys Llythyr Archwilio 2017/18 fel eitem ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror, 2019.

CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Y Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddarau'r Blaen Raglen Waith yn ôl y gofyn.

**Y Cyngorydd Peter Rogers
Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Dyddiad:	12.02.2019
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
Pennaeth Gwasanaeth:	Dylan J Williams Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y Gwasanaeth
Awdur yr Adroddiad:	Stephen Nicol Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
Natur a Rheswm am Adrodd: Gofyniad cyfreithiol i adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch. Gofyniad adroddiad blynyddol a nodwyd yn y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2017/18. Cyflwynir yr adroddiad yn y fformat a argymhellir gan WLGA.

2. Cefndir

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gan Uwch Swyddogion, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i sefydlu dull o adfywio Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor. Mae datblygu Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol newydd sydd yn egluro rolau a chyfrifoldebau holl randdeiliaid y Cyngor wedi bod yn ffrwd gwaith allweddol ar lefel uwch swyddogion. Mae diwygio rôl Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch fel eu bod yn fwy gweithredol o ran gwella iechyd a diogelwch yn newid arwyddocaol yn y trefniadau.

Cofnodwyd cyfanswm o 1322 o ddigwyddiadau, 111 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys disgyblion, cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd. Cofnodwyd cyfanswm o 249 digwyddiad ar gyfer gweithwyr yn unig. Roedd hyn 46 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Cyflwynir dadansoddiad o'r mathau o ddigwyddiadau yn yr adroddiad. Lle digwyddodd tueddiadau neu batrymau digwyddiadau felly fe wnaed gwaith i leihau'r risg. Dylai hyn fod wedi cynorthwyo gyda'r gostyngiad mewn digwyddiadau. Mae hon yn broses barhaus.

Adroddwyd cyfanswm o 20 digwyddiad i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn unol â gofynion RIDDOR. Darparwyd adroddiadau ar bob digwyddiad i'r HSE. Ni chymerodd yr HSE unrhyw gamau dilynol a oedd yn nodi eu bod yn fodlon â'r gwaith a wnaed i atal ail-ddigwyddiad

Darparwyd cyfanswm o 92 o gyrsiau hyfforddi byr mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch gyda 892 o aelodau staff yn mynychu.

Gwnaethpwyd gwaith partneriaeth gyda'r chwe Thîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yng

Ngogledd Cymru a derbyniwyd gwybodaeth gan WLGA i gynorthwyo ffrydiau gwaith Iechyd a Diogelwch. Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu cefnogaeth Iechyd Galwedigaethol a Hyfforddiant.

Darparwyd gwybodaeth i gynorthwyo'r HSE. Ni chafwyd dim ymyrraeth gan HSE yn 2017/18. Darparodd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 336 o ymyriadau gweithredol er mwyn cynorthwyo gyda materion Iechyd a Diogelwch. Cyflwynwyd bwletin Iechyd a Diogelwch misol fel modd o godi ymwybyddiaeth. Datblygwyd Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn cynorthwyo i wella safon Iechyd a Diogelwch yn yr Awdurdod.

3. Argymhelliad

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith ystyried trefniadau a pherfformiad Iechyd a Diogelwch.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adroddiad Iechyd a Diogelwch 2017/18

Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

CYNNWYS

		Tudalen
1	Cyflwyniad	2
2	Rheolaeth Gorfforaethol	2
3	Gwybodaeth Ystadegol	3
4	Partneriaethau	8
5	Ymgynghoriad ar y Cyd	8
6	Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol	9
7	Prif Gyflawniadau	9
8	Perfformiad Diogelwch	10
9	Cynllun Gweithredu Strategol	10
10	Casgliad	11
11	Cynllun Datblygu	12

1 Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Perfformiad Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau'n cynnwys cyfres o benawdau fel cyfrwng i adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch. Nid bwriad y fframwaith hwn oedd darparu dadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond yn hytrach dylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan CLILC.

Dros nifer o flynyddoedd gwelwyd newid sylweddol yn strwythur rheoli'r awdurdod a gostyngiad sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i'r cyngor. Bu'n rhaid wrth gryn ymdrech i gynnal perfformiad cyson a cheisio gwella perfformiad o dan yr amgylchiadau hynny.

2 Rheolaeth Gorfforaethol

Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi bod yn eu swyddi ers nifer o flynyddoedd ac maent wedi bod yn allweddol o ran sefydlu dulliau llywodraethu newydd. Yng nghyfarfodydd rheolaidd yr UDA ystyriwyd adroddiadau ar faterion cyfredol a'r posibilrwydd o gyflwyno dulliau gweithio newydd. Mae hynny'n sicrhau fod gan yr UDA drosolwg o reolaeth y cyngor.

Dylai cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Penaethiaid sicrhau fod unrhyw faterion yn cael eu huwchgyfeirio i'r UDA er mwyn sicrhau fod camau priodol yn cael eu cymryd i ddatrys problemau, boed y materion hynny'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ai peidio.

Mae cyfansoddiad y cyngor yn nodi cyfrifoldebau o fewn y strwythur rheoli. Yn ystod 2017/18 datblygwyd fersiwn diwygiedig o'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mae'r polisi diwygiedig yn nodi cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch pellach. Cyn hynny roedd y cyfrifoldebau'n cael eu nodi yn y Ddogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn datgan bwriad y cyngor i ddarparu amgylchedd gwaith diogel a'r dulliau er mwyn cyflawni hynny. Mae nodi rolau a chyfrifoldebau yn y Polisi Iechyd a Diogelwch yn symleiddio'r modd o gyflwyno'r wybodaeth.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar y Porth Polisi Corfforaethol ac mae'n orfodol i bob aelod o staff ddarllen a derbyn y cynnwys. Dylai hynny sicrhau ymwybyddiaeth lwyr o'r cynnwys ac atgyfnerthu ymhellach rolau a chyfrifoldebau'r holl staff.

Mae'r gwaith Adolygu Perfformiad yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau busnes blynyddol sy'n cael eu hasesu a'u cymeradwyo gan yr UDRh. Mae hynny'n fodd o sicrhau atebolrwydd ar draws y cyngor gyda thargedau ac amcanion yn cael eu nodi yn y cynlluniau busnes.

Yn ystod 2017/18 datblygwyd Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i'w weithredu gan y Gwasanaethau. Cynhaliwyd nifer sylweddol o gyfarfodydd gyda'r Prif Weithredwr, aelodau'r Tîm AD ac aelodau'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i ddatblygu Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig, Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a dogfennau cefnogol.

Tra bod y dogfennau uchod yn cael eu datblygu, roedd disgwyl i'r Gwasanaethau ddatblygu Cynlluniau Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth unigol a ddylai liniaru mwyafrif y risgiau yn y Gwasanaethau unigol.

3 Gwybodaeth Ystadegol



Mae'r data a gyflwynir isod yn ymwneud â'r holl ddamweiniau a digwyddiadau gafodd eu hadrodd yn ystod 2017/18. Dosberthir damweiniau a digwyddiadau yn fewnol i dri chategori, sef Mân, Difrifol a RIDDOR.

Mân ddamweiniau a digwyddiadau yw damweiniau / digwyddiadau lle nad oedd yr anaf neu'r golled yn arwyddocaol. Mae hyn yn cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle na chafwyd unrhyw niwed neu golled a lle na fyddai'r canlyniad posib yn sylweddol petai niwed neu golled wedi digwydd.



Damweiniau / digwyddiadau difrifol lle'r oedd y canlyniad wedi arwain at niwed neu golled sylweddol neu lle'r oedd posibilrwydd o niwed neu golled sylweddol. Mae hyn yn cynnwys damweiniau neu ddigwyddiadau lle na chafwyd niwed neu golled ond lle byddai'r canlyniad posib yn sylweddol petai niwed neu golled wedi digwydd.

Damweiniau a digwyddiadau RIDDOR yw damweiniau neu ddigwyddiadau oedd yn cwrdd â meini prawf penodol ac yr oedd rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn eu cylch. Cynhwysir y meini prawf ar gyfer adrodd ar fathau o ddamweiniau a digwyddiadau yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno nifer y damweiniau a digwyddiadau ar gyfer yr awdurdod yn ei gyfanrwydd. Mae'n cynnwys digwyddiadau oedd yn ymwneud ag aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr a chyfleusterau yn ogystal â gweithwyr.



Mae'r tablau isod yn cyflwyno nifer y damweiniau a digwyddiadau oedd yn ymwneud â gweithwyr yn unig.



Mae'r tabl isod yn rhestru'r mathau o ddigwyddiadau a gafwyd. Mae'r rhestr yn dilyn trefn esgynnol, gan ddechrau gyda'r nifer uchaf o ddigwyddiadau yn 2017/18. Cyflwynir nifer y digwyddiadau cyffelyb yn 2017/18 yng ngholofn 3 y tabl.

Mathau o Ddigwyddiadau	2017/18	2016/17
Colli Cydbwysedd	184	148
Damwain/digwyddiad ar yr lard (ysgolion)	155	193
Llithro, Baglu, Disgyn, ar yr un lefel	136	248
Math arall o ddamwain	124	90
Ymosodiad Corfforol gan berson (ymddygiad heriol) (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion)	103	56
Taro gwrthrych sefydlog neu ddisymud	88	113
Colli Eiddo neu Ddifrod i Eiddo	72	57
Digwyddiad Treisgar (cam-drin, aflonyddu)	53	73
Disgyn allan o'r gwely (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid)	50	22
Cael eu taro gan wrthrych sy'n symud/hedfan	47	58
Ymosodiad Corfforol gan berson	45	37
Cyflwr Meddygol	42	34
Damwain Chwaraeon (Digwyddiadau hamdden, gweithgareddau chwaraeon)	22	47
Ymddygiad Heriol (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion)	21	17
Disgyn oddi ar Gadair/Desg (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion)	21	33
Cael anaf wrth Drin a Chodi ac ati	20	26
Anaf ar Ochr y Pwll (Digwyddiadau hamdden, gweithgareddau chwaraeon)	16	18
Disgyn o uchder llai na 2m	16	30
Damwain Addysg Gorfforol (ysgolion)	15	15
Digwyddiad Treisgar (cam-drin, aflonyddu, anabledau dysgu) (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion)	15	5
Damwain fu bron â digwydd	13	13
Methiant gan Reolwyr	13	27
Dod i gysylltiad â sylwedd niweidiol	10	8
Disgyn oddi ar offer chwarae (ysgolion)	7	6
Llosgi	7	9
Dod i gysylltiad â pheiriannau yn symud	6	7
Gwydr/Offer Miniog	6	14
Hunan Niweidio	4	6
Amgylchiadau Annymunol	3	2
Cael eu Taro gan Gerbyd yn Symud	3	7
Disgyn o uchder dros 2m	2	1
Dod i gysylltiad â Thrydan	1	2

Dod i gysylltiad â thân	1	1
Cael anaf gan anifail	1	7

Noder fod dau fath ychwanegol o ddigwyddiad yn 2016/17 ac un digwyddiad yr un wedi'i gofnodi ar eu cyfer:

Disgyn o gerbyd

Ymosodiad Corfforol (ymddygiad rhywiol)

Dadansoddiad o Data Digwyddiadau

Roedd y data am ddigwyddiad a ddarparwyd uchod wedi'i ddadansoddi i nodi materion posibl y gallai fod angen sylw arnynt. Roedd gwaith blaenorol gyda'r Gymuned yn nodi bod cwympiadau o fewn yr adran ofal fel mater o bwys, digwyddiadau Colli Balans oedd y math o ddigwyddiad a gofnodwyd fwyaf. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn adrodd / cofnodi o'r digwyddiadau hyn. Pan fydd y digwyddiadau hyn yn digwydd, cynhelir asesiadau risg cleient penodol.

Dynodwyd digwyddiadau maes chwarae a baglu, llithro a chwympiadau fel y nifer uchaf o ddigwyddiadau nesaf. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â digwyddiadau yn yr ysgol lle roedd gan ddisgyblion fân ddigwyddiadau ond roedd gofyn iddynt gael eu cofnodi.

Roedd pedwar categori ar gyfer y math o ddigwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol a allai gael eu hystyried yn y nifer uchaf o ddigwyddiadau sy'n effeithio ar weithwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer systemau i gynorthwyo â lleihau'r ffigurau hyn.

Lle mae digwyddiadau tebyg yn digwydd o fewn cyfnod byr o amser, gwneir gwaith i atal neu leihau'r risg ar lefel leol.

Roedd 20 digwyddiad a adroddwyd i'r HSE yn ofyniad RIDDOR. Darparwyd adroddiadau ar bob digwyddiad. Ni chymerodd yr HSE unrhyw gamau dilynol a fyddai'n nodi na chafwyd unrhyw faterion gyda'r trefniadau gweithio.

Hyfforddiant

Isod, ceir crynodeb o sesiynau hyfforddiant seiliedig ar sgiliau ar gyfer staff y Cyngor Sir yn ystod cyfnod yr adroddiad. Trefnir yr hyfforddiant yn dilyn derbyn yr anghenion a nodwyd gan y Gwasanaethau. Mae'r holl ddarparwyr hyfforddiant wedi cael eu hachredu ac yn gymwys i gyflwyno cyrsiau penodol ac, o dan rai amgylchiadau, eu teilwra er mwyn diwallu anghenion y sefydliad. Mae adborth staff yn gyson ac yn adlewyrchu safon y ddarpariaeth ar draws nifer o wasanaethau.

Math o Gwrs	Nifer Sesiynau	Nifer o Ymgeiswyr
Ymwybyddiaeth Asbestos	2	28
Hylendid Bwyd Sylfaenol	9	84
Ymwybyddiaeth COSHH	1	24
Aseswyr DSE	2	25
Cymorth Cyntaf Mewn Argyfwng (Diwrnod Cyfan)	10	58

Marsial Tân	8	56
Diogelwch Tân	2	17
Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod)	2	13
Hyfforddiant Diweddarau Cymorth Cyntaf (2 ddiwrnod)	5	38
Ymwybyddiaeth Rheoli Haint	2	46
Cwrs Diweddarau IOSH	1	9
Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Staff	5	41
Lles Meddyliol yn y Gwaith ar gyfer Rheolwyr	3	23
Meddyginiaeth - un diwrnod	5	62
Cymorth Cyntaf i Blant	1	7
Pasbort Trin â Llaw A-B Modiwl A – Cyflwyniad Modiwl B – Trin llwyth difywyd a defnydd ymarferol o ergonomeg	7	89
Pasbort Trin â Llaw A-F A a B – Gweler uchod Modiwl C – Eistedd, sefyll a cherdded Modiwl D – Symudedd yn y Gwely Modiwl E – Trosglwyddiad Ochrol Modiwl F – Defnyddio Offer Codi	5	43
Diweddarau'r Pasbort	4	29
Trais Lefel 1 a 2	5	70
Trais Lefel 3	12	114
Gweithio ar Uchder	1	16

Cydweithiwyd â thîm Iechyd a Diogelwch Gwynedd er mwyn darparu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel ac IOSH Arwain yn Ddiogel a gynhaliwyd mewn ysgolion yn Ynys Môn.

4 Partneriaethau

Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Cyfarfu Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru unwaith yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd dau swyddog o'r Sir yn bresennol i adrodd ar ddigwyddiadau RIDDOR CSYM yr oedd rhaid eu hadrodd i'r HSE. Roedd eitemau eraill ar y rhaglen yn cynnwys Dirgryniad Llaw a Braich, Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a thrafodaeth ar yr arolygiaeth ysgolion ynglŷn â materion iechyd a diogelwch. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn. Er na chynhelir cyfarfodydd rheolaidd, mae'r timau'n cyfathrebu â'i gilydd ar nifer o faterion. Fel arfer mae hynny'n golygu codi ymwybyddiaeth am broblemau posib neu gyflwyno ceisiadau am gyngor ynglŷn ag arfer orau.

Yn ogystal, cydweithiwyd â Thimau Iechyd a Diogelwch Cyngorau Conwy a Gwynedd, y gwasanaethau addysg a hamdden mewn perthynas â datblygu Arfer Ddiogel o ran Polisi Nofio Ysgolion, Canllawiau a Gweithdrefnau.

CLILC

Darparodd CLILC wybodaeth i holl Awdurdodau Cymru ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch.

Contractwyr

Mae nifer o gontractau tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau i'r Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd rheoli rheolaidd gyda'r contractwyr er mwyn adolygu perfformiad y contract, yn cynnwys Iechyd a Diogelwch.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Roedd materion Iechyd yn flaenoriaeth yng ngwaith yr HSE. Yn sgil hynny dull gweithredu'r HSE oedd gofyn i'r holl Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth am ddulliau rheoli Dirgryniad Llaw a Braich (HAVS). Darparwyd gwybodaeth i'r HSE am ddulliau rheoli ar gyfer gweithwyr uniongyrchol a chontractwyr pan ofynnwyd am yr wybodaeth honno.

5 Ymgynghoriad ar y Cyd

Grŵp Iechyd a Diogelwch

Yn hanesyddol roedd y Grŵp Cyswllt Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod gyda'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cadeirio ar y cyd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy. Mae'r grŵp yn cynnwys Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch o holl wasanaethau'r cyngor. Roedd cynrychiolwyr undeb yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd.

O ganlyniad i adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch rhoddwyd mwy o gyfrifoldebau i'r Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch a dylai hynny olygu fod cyfarfodydd y grŵp yn fwy pwrpasol.

Mae'r Polisi'n disgwyl i gynrychiolwyr Undeb fod yn bresennol yn y cyfarfod a dylai hynny ganiatáu i'r cyngor ymgynghori â'r Undebau ar faterion Iechyd a Diogelwch.

Mae Adnoddau Dynol yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori rheolaidd gyda'r Undebau er mwyn trafod Polisiâu a Gweithdrefnau.

6 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Ar hyn o bryd mae Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol yn cael ei ddarparu o dan gytundeb gyda Chyngor Gwynedd ac mae gweithwyr Iechyd Galwedigaethol cymwys yn ymweld â swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni i gynnal cymorthfeydd, profion Iechyd, ac ati. Yr adain AD sy'n rheoli'r contract ac mae'n cydymffurfio ag arferion caffael safonol. O dan amodau'r ddarpariaeth, disgwylir fod achosion sy'n ymwneud â materion Cyhyrysgerbydol neu absenoldeb salwch oherwydd Straen yn cael eu cyfeirio ar unwaith.

Mae materion perfformiad a phroblemau'n cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng y Darparwr ac AD.

7 Prif Gyflawniadau

Polisi Iechyd a Diogelwch

Dylai datblygu Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig, sy'n cynnwys rôl ddiwygiedig ar gyfer y Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch, gynorthwyo i ddatblygu trefniadau rheoli a monitro Iechyd a Diogelwch. Mae hwn yn newid sylweddol o ran rheoli Iechyd a Diogelwch o fewn y cyngor. Mae datblygu'r Polisi, Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch a chanllawiau i gefnogi hynny wedi bod yn gyflawniad allweddol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Caffael

Yn y gorffennol mae Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch wedi nodi'r angen i ystyried Iechyd a Diogelwch yn ystod y cyfnod caffael. Mae swyddogaeth y tîm caffael wedi datblygu dros amser ac mae ganddynt rôl ragweithiol o ran safonau Iechyd a diogelwch.

Ar hyn o bryd y Tîm Caffael sy'n gyfrifol am y gyllideb ar gyfer prynu offer swyddfa er mwyn cynorthwyo i sicrhau fod offer addas yn cael ei brynu fel bod materion Iechyd a diogelwch yn cael sylw.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Ar hyn o bryd mae HSE wedi nodi Iechyd a Chlefydau Galwedigaethol fel maes gwaith y bydd Arolygwyr yn canolbwyntio arno. Yn 2017/18 cafwyd un RIDDOR o ganlyniad i Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich (HAVS). Cynhaliwyd ymchwiliad mewnol a pharatowyd adroddiad. Gofynnodd yr HSE am yr adroddiad fel cam dilynol i'r adroddiad digwyddiad RIDDOR. Hyd yn hyn ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau pellach gan HSE am wybodaeth ynglŷn â'r achos hwnnw.

Gan na chafwyd unrhyw geisiadau dilynol, ni fu dim ymyrraeth gan yr HSE yng ngwaith y cyngor yn ystod 2017/18. Mae cynnal gwaith y cyngor heb unrhyw ymyrraeth gan yr HSE i'w ystyried fel llwyddiant arwyddocaol.

Bwletinau Misol

Cyflwynwyd bwletinau Iechyd a Diogelwch misol yn ystod 2017/18. Pwrpas y bwletinau oedd codi ymwybyddiaeth am bynciau ym maes Iechyd a diogelwch, risgiau posib a'r camau angenrheidiol i leihau'r risgiau.

8 Perfformiad Diogelwch

Cynhaliodd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol archwiliadau ac ymyriadau er mwyn cynorthwyo i fonitro a gwella safonau Iechyd a Diogelwch yn y Cyngor. Mae'n ofynnol i sefydliadau adrodd ar ddigwyddiadau penodol i'r HSE. Pennir terfynau amser ar gyfer adrodd ac ymateb i'r mathau hyn o ddigwyddiadau. Dangosydd perfformiad ar gyfer y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yw ymateb i ddigwyddiadau RIDDOR o fewn pum niwrnod.

Isod cyflwynir gwybodaeth am archwiliadau ac ymyriadau gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol mewn perthynas ag ymateb i ddigwyddiadau RIDDOR.

	Ch. 1	Ch. 2	Ch. 3	Ch. 4	Cyfanswm
Nifer o ymyriadau iechyd a diogelwch a gynlluniwyd ar safleoedd y Cyngor	90	72	89	85	336
Canran yr ymatebion i ddamweiniau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) ar safleoedd yr Awdurdod Lleol o fewn 5 niwrnod	6/6	4/4	4/4	6/6	20/20

9 Cynllun Gweithredu Strategol

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fydd yn cael ei roi ar waith. Mae'r cynllun yn cynnwys chwe phennawd.

Polisiâu, Trefniadaeth a Threfniadau

Y Canlyniadau a Ddymunir: egluro Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch ar bob lefel yn y sefydliad. Diben hyn yw sicrhau fod gweithgareddau pawb sydd ynghlwm â rheoli iechyd a diogelwch yn eglur ac yn cael eu cydlynu'n effeithiol. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o ymrwymiad CSYM i iechyd a diogelwch a chyfleu hynny a gwella diwylliant iechyd a diogelwch.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig yn nodi cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch o fewn strwythur y Cyngor.

Cymhwysedd Iechyd a Diogelwch

Y Canlyniadau a Ddymunir: sicrhau fod gan y Cyngor staff cymwys i nodi a rheoli risgiau a bod tystiolaeth o'r cymhwysedd hwnnw'n bodoli ar bob lefel drwy'r Cyngor o'r UDA i lawr, drwy ddarparu hyfforddiant â chymorth a chyfleoedd datblygu.

Adolygwyd, diwygiwyd a diweddarwyd y Matrics Hyfforddiant Corfforaethol er mwyn darparu canllawiau clir ar y safonau cymhwysedd disgwylidig mewn perthynas â hyfforddiant iechyd a diogelwch ar draws y cyngor.

Proffilio Risg

Y Canlyniadau a Ddymunir: sicrhau fod y risgiau cywir yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu er mwyn gweithredu arnynt ac na roddir gormod o flaenoriaeth i fân risgiau a sicrhau fod mesurau rheoli risg yn seiliedig ar wybodaeth.

Ysgrifennwyd canllawiau er mwyn hysbysu'r Gwasanaethau o'r angen i gynnal asesiad proffilio risgiau ar y Gwasanaeth. Defnyddiwyd dull cyffelyb i nodi risgiau busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn y gorffennol. Mae'r Canllawiau'n rhoi enghreifftiau o risgiau posib a sut y gallent gael eu hamlygu yn y Gwasanaethau unigol.

Adrodd ar Ddamweiniau, Digwyddiadau a Damweiniau fu bron â digwydd

Y Canlyniadau a Ddymunir: gwella adrodd ar ddamweiniau, digwyddiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd a chlefydau galwedigaethol a'r broses ymchwilio a monitro. Dylai hynny arwain at ganolbwyntio'n well ar iechyd a lles y gweithiwr.

Byddai hynny'n golygu adolygu'r system bresennol ar gyfer adrodd ar ddamweiniau gyda'r bwriad o nodi dulliau o wella'r system. I wneud hynny byddai'n rhaid adolygu Polisi Damweiniau, Digwyddiadau, Clefydau Galwedigaethau a Digwyddiadau fu bron â digwydd y Cyngor er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r system.

Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn gysylltiedig â Gwaith a Gweithwyr ar eu Pen eu Hunain

Y Canlyniadau a Ddymunir: rhoi trefniadau effeithiol ar waith i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â thrais ac ymddygiad ymosodol a gweithwyr ar eu pen eu hunain er mwyn darparu amgylchedd gwaith diogel. Sicrhau nad yw gweithwyr yn derbyn digwyddiadau treisgar neu ymddygiad ymosodol fel agwedd arferol o'r swydd.

Byddai hynny'n golygu adolygu'r trefniadau presennol gyda'r nod o weithredu gwelliannau posib. Treialwyd Systemau Gweithwyr ar eu Pen eu Hunain gan ddarparwyr allanol a dulliau o gofnodi risgiau posib gan y cyhoedd neu mewn manau cyhoeddus. Darperir hyfforddiant penodol mewn perthynas â thrais ac ymddygiad ymosodol.

Straen sy'n Gysylltiedig â Gwaith

Y Canlyniadau a Ddymunir: rheoli risgiau yn gysylltiedig â straen sy'n gysylltiedig â gwaith yn effeithiol. Byddai hynny'n golygu mesur ac adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli straen yn y Cyngor. Mae'r Tîm Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn gweithio ar y maes hwn. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys cyfeirio unrhyw absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen ar unwaith, gwasanaeth cwnsela a fformat asesiad risg penodol ar gyfer straen. Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i gyllido gwasanaeth cwnsela rhad ac am ddim a ddarperir gan ddarparwr arbenigol dwyieithog.

10 Casgliad

Mae Uwch Swyddogion, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi gwneud gwaith sylweddol er mwyn sefydlu dull o adfywio Iechyd a Diogelwch o fewn y cyngor.

Mae rôl y Prif Weithredwr o ran gyrru'r gwaith yn ei flaen wedi rhoi proffil uwch i Iechyd a Diogelwch ac wedi sicrhau fod y Gwasanaethau'n rhoi sylw mwy manwl i'r maes.

Dylai'r Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig sy'n nodi'n glir fod holl Aelodau a staff y Cyngor yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch arwain at wella Diwylliant Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor.

Dylai'r polisi, rôl y Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch a chyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch ar ei newydd wedd osod y sylfeini ar gyfer cynnal a gwella Iechyd a diogelwch yn y cyngor.

11 Cynllun Datblygu

	Gweithredu
1	Parhau â'r Grŵp Iechyd a Diogelwch diwygiedig gyda'r nod o arwain gwelliannau mewn safonau Iechyd a Diogelwch Caniatáu i'r Grŵp Iunio ei raglen ei hun o ran meysydd i'w gwella
2	Dylid adrodd ar gynnydd Gwasanaethau o ran y camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun i'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yng nghyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch.
3	Parhau i weithio i ddatblygu Systemau Gweithwyr ar eu pen eu Hunain a Systemau Trais ac Ymddygiad Ymosodol
4	Monitro presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi a drefnwyd o dan y fframwaith Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

This page is intentionally left blank

24 Heol y Gadeiriau / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
E-bost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Cyferinod IH 201718
Dyddiad 05/02/2019
Tudalen 1 o 4

Llinos Medi / Marc Jones
Swyddfeydd y Cyngor
Llangeferni
Ynys Môn
LL77 7TW

Annwyl Llinos / Marc

Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ynys Môn 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o cyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio

Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ar faterion ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifon yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu paratoi i safon dda ac fe'u cefnogwyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr ac amserol. Adroddwyd y materion allweddol o archwiliad y datganiadau ariannol i aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn fy adroddiad Archwiliad y Datganiadau Archwilio ar y 19 Medi 2018.

Ar 28 Medi 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor.

Mae'r materion allweddol sy'n deillio o'r gwaith archwilio hyn wedi ei adroddi i'r pwyllgorau perthnasol lle bo'n briodol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae ystiriaeth yr Archwilydd Cyffredinol o dreniadau'r Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi ei seilio ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd ar y cyfrifon yn ogystal â bod yn ddibynnol ar y gwaith a gwblhawyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle mae effeithiolrwydd y trefniadau heb gael ei dangos neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Nid yw fy ngwaith hyd yma ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar yr ardystio hawliadau grant a ffurflenni adrodd wedi canfod problemau sylweddol a fyddai yn cael effaith ar y cyfrifon 2018-19 neu ar systemau ariannol allweddol

Nid yw fy ngwaith parhaus ar ardystio hawliadau grant a ffurflenni adrodd wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol hyd yn hyn mewn perthynas â'r cyfrifon neu systemau ariannol allweddol y Cyngor. Byddaf yn adrodd unrhyw faterion allweddol i'r Cyngor unwaith y bydd rhaglen ardystio eleni yn gyflawn

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth geisio gosod cyllideb gytbwys ynghyd â lleihad yn balans y gronfa gyffredinol.

Mae cyllid llym yn parhau i fod yr her fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu pob gyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac mae'n debygol bydd y pwysau ariannol hyn yn barhau am y tymor canolig. Gwelwyd yn y setliad ariannu llywodraeth leol 2018/19 cynnydd yn setliad y Cyngor o 0.7% yn unig pan mae chwyddiant yn fwy na 2%.

Ar gyfer 2018-19, mae'r awdurdod yn projectu y bydd yn adrodd ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau o £3.3m ac wedi nodi pwysau galw yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r costau cysylltiedig i lleoli y tu allan i'r sir a'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol oedolion fel gyrwyr allweddol y diffyg rhagamcanol.

Er mwyn ymateb i'r pwysau hyn, mae'r cyngor wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd am ble i roi adnodd prin ac ystyried ffyrdd newydd i ddarparu gwasanaethau i bobl. Yn ei gynllun ariannol tymor canolig, mae wedi nodi'r targedau a'r arbedion canlynol i gyflawni'r targedau hynny.

Tymor Byr: Yn y gyllideb 2018/19 mae'r Cyngor wedi nodi'r angen am arbedion o £2.5m a chynnydd o 4.8% yn Nhreth y Cyngor. Tynnwyd arbedion cyllidebol o £2.522m o gyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2018/19. Rhagwelir y bydd £ 2.255m yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, efallai na ellir cyflawni £267k.

Tymor Canolig: Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen yn 2019/20 am arbedion o £3.7m a cynnydd o rhwng 6.5 - 9.5% yn y Dreth Gyngor i aros i'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys cynigion i gau neu werthu adeilad, lleihau nifer y pecynnau gofal lefel isel, codi tal am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u cyflwyno o'r blaen am ddim, ac i darparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na chost lawn eu pwysau cyllidebol a ragwelir.

Penderfynodd y Cyngor ym mis Chwefror 2018 y dylid cynnal balansau cronfa gyffredinol o £6.5m neu uwch. Mae'r Cyngor yn bwriadu ailystyried y darged hon yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2019.

Ar 31 Mawrth 2016 roedd balans y gronfa gyffredinol yn £8.9m sef y lefel uchaf ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, ers hynny mae'r balans wedi cael ei ddefnyddio gan arwain at falans ar 31 Mawrth 2018 o £ 6.9m. Er bod hyn ar hyn o bryd yn uwch na lefel targed y Cyngor, mae rhagamcaniadau y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2019 yn awgrymu y gallai'r balans fod mor isel â £ 3.6m. Mae'r duedd ddiweddar hon o ostyngiad yn balans y gronfa gyffredinol yn anghynladwy ac mae'n cynyddu'r angen i'r Cyngor gyflwyno arbedion rheolaidd. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel risg gan y Swyddog S151 a'r Cyngor ac mae yna dderbyniad y bydd angen i'r cyllidebau ddarparu ailgyflenwiad i'r cronfeydd dros y tymor hirach.

Yn yr un modd, mae cronfeydd wrth gefn eraill y Cyngor wedi bod yn lleihau trwy'r defnydd a gynlluniwyd a newidiadau yn y driniaeth gyfrifeg o un gronfa wrth gefn. Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng o £16m ar 31 Mawrth 2016 i ragweliad o £ 6.5m ar 31 Mawrth 2019. Dros yr un cyfnod, mae balansau ysgolion wedi gostwng o £ 2.5m i ragweliad o £1m fel y disgwyliwyd oherwydd gostyngiad yn y gyllideb ysgolion dirprwyedig.

Mae ystyriaeth barhaus o falansau gronfeydd wrth gefn a sut y gellid eu defnyddio i gefnogi cynlluniau ariannol yn arbennig o bwysig gan nad yw'n gynaliadwy i dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gefnogi costau parhaus y gwasanaethau gofal/plant dan arweiniad y galw. Unwaith y bydd y cronfeydd wrth gefn wedi'u disbyddu, rhaid nodi ffynonellau arian eraill neu arbedion effeithlonrwydd.

Felly, mae penderfyniad y Weithrediaeth i "gwneud digon o arbedion yn 2019/20 i gydbwysu'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac er mwyn sicrhau bod yr arbedion y mae angen eu gwneud yn 2019/20 yn gyrraeddadwy" yn ddatganiad rydym yn croesawu.

Mae amcangyfrifon cynnar ar gyfer 2019/20 ar ôl caniatáu am gynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor yn nodi bwlch cyllido o £5m. Gofynnwyd i wasanaethau nodi arbedion cyllideb a fyddai'n cynhyrchu'r arbedion gwerth £5m, ac mae gweithdai cyllideb a chynhelir dros yr haf gyda Phenaethiaid Gwasanaeth wedi nodi arbedion posibl o £3.747m. Bydd angen gwireddu arbedion a nodwyd gyda'r llithriad lleiaf posibl, gan y bydd unrhyw oedi wrth weithredu yn y pen draw yn cael effaith anffafriol ar balansau Gronfa Gyffredinol prin.

Disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 fod yn unol â'r ffi a gytunwyd yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

I C Howse.

Ian Howse

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adrodd i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Dyddiad:	12 Chwefror 2019
Pwnc:	Diweddariad Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Natur a Rhesymau dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor.	

1. Rhagarweiniad

- 1.1. The Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 27 Ionawr 2019 ynghylch:
- Adroddiadau Archwilio Mewnol [a gyhoeddwyd](#) ers 10 Tachwedd 2018
 - [Gwaith dilyn i fyny](#) a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol
 - Gweithrediad y [camau rheoli](#)
 - Y cynnydd a wnaed o ran darparu'r [Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19](#)
 - [Gwiriad Rheoli Risg](#)

2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Hefyd gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Diweddariad Archwilio

Mewnol

Chwefror 2019

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA
Pennaeth Archwilio a Risg

Cynnwys

Cynnwys	1
Adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar	2
Seiber Ddiogelwch TG	2
Dilyn i fyny adroddiadau Archwilio Mewnol	4
Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau – Dilyn i fyny am y trydydd tro.....	4
Gweithredu Camau Rheoli	6
Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19	7
Gwiriad Iechyd Rheoli Risg.....	8
Atodiad A – Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2018/19	11

Adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

1. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.
2. Rydym wedi cwblhau **un** adroddiad yn y cyfnod hwn a cheir crynodeb ohono isod:

Teitl	Lefel Sicrwydd	Catastroffig	Uchel	Cymedrol	Cyfanswm
Seiber Ddiogelwch TG	Cymedrol	0	2	3	5

Seiber Ddiogelwch TG¹

Sicrwydd	Materion/Risgiau	
	Cymedrol	0
	2	Uchel
	3	Cymedrol

3. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

Oes gan y Cyngor drefniadau gwarchod, canfod ac ymateb digonol mewn lle i liniaru'r risg i rwydwaith, systemau, gwybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor petai seiber-ddiogelwch yn cael ei dorri?

4. Ar y cyfan, daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod gan y Cyngor nifer o reolaethau effeithiol, gweithredol ar waith er mwyn rheoli'r risg i seiber-ddiogelwch ac er mwyn atal a lleihau effaith ymosodiadau maleisus, allanol ar wasanaethau, systemau a gwybodaeth y Cyngor.
5. Fodd bynnag, mae diffyg monitro rhagweithiol o ran graddau a natur y peryglon seiber a wyneba'r Cyngor ar hyn o bryd a rhai newydd sy'n ymddangos – a gallai hyn amharu ar lwyddiant yn y maes hwn. Hefyd, mae angen cryfhau trefniadau sgrwtini ac adrodd, yn enwedig ar lefel Pennaeth Gwasanaeth. Gan mai uwch reolwyr sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu adnoddau a dylanwadu ar ymddygiad staff mewn perthynas â'r defnydd o gyfrifiadur a seiber-ddiogelwch, mae ymgysylltu effeithiol ar y lefel hon yn hanfodol.
6. Mae gan y Cyngor bolisiau TG cynhwysfawr mewn lle sy'n cynnwys risgiau seiber-ddiogelwch, ac ar adeg ein hadolygiad roedd 92% o staff sydd â mynediad at gyfrifiadur wedi darllen a derbyn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Fodd bynnag, fe wnaethom ddarganfod nifer

¹ Fel rhan o beilota math newydd o adroddiad mae Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Deilydd Portffolio perthnasol wedi derbyn copi o'r adroddiad llawn cyn y cyfarfod hwn.

fechan o anghysonderau rhwng hyn â Strategaeth Ddigidol y Cyngor ynglŷn â 'Dewch â'ch Dyfais eich Hun' (BYOD) ac mae angen datrys y rhain.

7. Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi adolygu a chryfhau ei ofynion cyfrinair corfforaethol yn unol â meini prawf sy'n cael eu hargymell yn genedlaethol. Fodd bynnag, mewn dwy o systemau'r Cyngor lle mae gan y cyhoedd fynediad atynt, nid yw gosodiadau cymhlethdod y cyfrineiriau yn cydymffurfio â hyn, ac nid ydynt yn ddigon effeithiol i warchod rhag digwyddiad o dorri diogelwch data.
8. Mae gwarchod rhwydwaith y Cyngor yn amlwg yn flaenoriaeth i TG ac mae amrywiaeth o fesurau diogelwch technegol ar waith er mwyn cyflawni hyn. Er gwaetha'r llwyddiant gweladwy hwn, canfu ein hadolygiad nad yw'r rheolaethau o amgylch dyfeisiau cyfryngau symudadwy yn adlewyrchu'r gofynion yn y maes hwn fel yr amlinellir yn y Polisi Diogelwch TG. Byddai adolygiad i sicrhau mai dim ond y rheini sydd wedi eu hawdurdodi i ddefnyddio dyfeisiau cyfryngau symudadwy sy'n gallu gwneud hynny yn lleihau'r risg o dorri diogelwch neu beryglu data.
9. Er ein bod wedi codi pum mater/risg sydd angen sylw, mae canlyniad ein hadolygiad yn bositif ar y cyfan. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr, ac mae manylion hwn mewn dogfen ar wahân. Felly, o fewn sgôp ein hadolygiad, gallwn ddarparu **lefel cymedrol o sicrwydd** yn y maes hwn.

Dilyn i fyny adroddiadau Archwilio Mewnol

10. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny adroddiadau gyda graddfa sicrwydd o 'Cyfyngedig' neu is. Rydym wedi cwblhau **un** adolygiad dilyn i fyny yn y cyfnod hwn, gyda'r canlyniadau canlynol:

Teitl yr Archwiliad	Adolygiad	Lefel Sicrwydd	Catastroffig	Uchel	Cymedrol	Isel	Cyfan swm
Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau	Dilyn i fyny am y trydydd tro	Cyfyngedig	0	2	1	0	3

Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau – Dilyn i fyny am y trydydd tro

11. *Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o safbwynt adroddiadau 'Sicrwydd Cyfyngedig', rwyf wedi darparu copi o'r adroddiad llawn i aelodau ar wahân.*
12. Fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad o reoliadau mynediad a gwahanu dyletswyddau fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol yn 2014/15. Canlyniad hyn oedd graddfa 'Coch', a ddiffiniwyd ar y pryd fel *'Gan gymryd i ystyriaeth y materion sydd wedi eu hadnabod, ni all y Cyngor gael sicrwydd bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt er mwyn rheoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio yn addas, yn cael eu gweithredu'n rheolaidd nac yn effeithiol. Mae angen gweithredu er mwyn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli.'*
13. Canlyniad yr adolygiad oedd 15 o argymhellion ac un awgrymiad.
14. Fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad dilynol ym mis Ionawr 2015 a chanlyniad hyn unwaith eto oedd graddfa 'Coch'. Roedd deuddeg o argymhellion yn weddill a'r raddfa 'Coch' yn parhau.
15. Cynhaliwyd adolygiad dilyn i fyny am yr ail dro ym mis Rhagfyr 2017, a gadarnhaodd bod pump yn parhau i fod angen sylw. O ganlyniad, rhoddwyd 'Sicrwydd Cyfyngedig' yn dilyn yr adolygiad hwn (yn unol â'r ymagwedd archwilio newydd).
16. Ym mis Rhagfyr 2018 fe wnaethom gynnal adolygiad dilyn i fyny am y trydydd tro. Cadarnhaodd hyn, o'r pum mater / risg a oedd yn weddill, bod dau wedi eu datrys a bod tri yn y broses o gael eu datrys.
17. Mae'r adran gyflogres yn y broses o ymgymryd ag ailstrwythuriad ar hyn o bryd. Unwaith y bydd y prosiect Northgate wedi dod i ben, bydd y strwythur newydd yn cael ei weithredu. Mae'r rownd gyntaf o ymgynghoriadau ar y strwythur newydd wedi'i gwblhau'n ddiweddar

a bydd hyn yn mynd rhagddo yn ystod Ionawr 2019. Unwaith y bydd wedi'i weithredu, mae Rheolwr y Gwasanaeth Cyfrifo yn hyderus y bydd hyn yn datrys y materion / risgiau sy'n weddill a godwyd yn wreiddiol.

18. Gan ystyried canlyniadau ein hadolygiad dilyn i fyny, er bod cynnydd wedi'i wneud, mae lefel sicrwydd yr adroddiad yn parhau i fod yn **'Sicrwydd Cyfyngedig'** ar hyn o bryd a byddwn yn cynnal adolygiad pellach yn ystod Gorffennaf 2019.

Gwaith dilyn i fyny sydd wedi'i drefnu ac sydd ar y gweill

19. Mae gennym ddau adroddiad gyda graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig' fydd yn cael adolygiad dilynol cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae'r ddau adolygiad dilyn i fyny wrthi'n cael eu cynnal:

Teitl yr Archwiliad	Rheswm dros yr Adolygiad	Dyddiad dilyn i fyny	Lefel Sicrwydd	Catastroffig	Uchel	Cymedrol	Isel	Cyf
Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus	Dilyn i fyny am yr ail dro	Gorff-18 (Adroddiad Drafft a gyhoeddwyd)	Cyfyngedig	1	3	3	1	8
Cydymffurfio â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu	Dilyn i fyny am yr ail dro	Hydref-18 (gohiriwyd tan Chwefror 19 ar gais y Pennaeth Adnoddau oherwydd newid yng ngherrig milltir y prosiect)	Cyfyngedig	0	6	4	1	11

Gweithredu Camau Rheoli

20. Mae adroddiad manwl o'r holl Faterion / Risgiau Coch ac Amber yn cael ei gynhyrchu ar wahân.
21. Mae ymarfer diweddar er mwyn archwilio'r data hanesyddol sydd wedi'i gynnwys yn y system olrhain gweithredoedd wedi tynnu sylw at ffurfwedd gor-weinyddol ac eitemau sy'n anghyson â'n agwedd tuag at archwilio sy'n seiliedig ar risg. Bydd fersiwn newydd, wedi'i diweddarau o'r system olrhain gweithredoedd ar gael cyn hir, sy'n darparu nodweddion ychwanegol ac yn lleihau'r baich gweinyddol. Felly, byddwn yn ymgymryd ag ymarfer y flwyddyn nesaf er mwyn glanhau'r data hanesyddol ac adolygu ffurfwedd y system.

Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19


22. Mae'r Cynllun presennol ynghlwm yn [Atodiad A](#). Ers i'r ddau Uwch Archwilydd newydd gael eu penodi, mae gwaith wedi gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, yn y dyfodol, ynghyd â hyd y swyddi hyn, ymchwiliadau hir, gwaith dilynol sylweddol ac absenoldeb mamolaeth y trydydd Uwch Archwilydd, a ddechreuodd yn annisgwyl yn Hydref 2018, bydd yn anodd cyflawni ein targed i roi sylw i 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y gofrestr risg gorfforaethol.
23. Er mai dim ond **35%** o risgiau gweddilliol coch ac ambr sydd wedi cael sylw yn y gofrestr risg gorfforaethol, mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd mewn **pum** maes sydd wedi eu cynnwys fel risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y gofrestr risg gorfforaethol:
- Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014)
 - Gwrthderfysgaeth a'r Ddyletswydd 'Prevent'
 - Recriwtio a Chadw
 - Parhad Busnes (dwy risg - coch)
 - Diwygio Lles
24. Mae gwaith hefyd yn parhau mewn **tri** maes ar gais y Penaethiaid Gwasanaeth, nad ydynt wedi eu cynnwys yn y gofrestr risg gorfforaethol:
- Taliadau Uniongyrchol
 - Gwasanaethau Hamdden – Trefniadau Llywodraethiant
 - Benthyciadau Ceir – trefniadau adennill
25. Rydym hefyd yn ymwneud â dau ymchwiliad parhaus, ac mae'r ddau ohonynt bron â dod i ben.

Gwiriad Iechyd Rheoli Risg

26. Fe wnaeth ein hyswirwyr, Zurich Municipal (ZM), gynnal Gwiriad Rheoli Risg. Er mwyn mesur aeddfedrwydd y trefniadau rheoli risg, defnyddiodd ZM Fodel Perfformiad sy'n torri'r gweithgareddau rheoli risg i lawr yn chwe categori sy'n cyfrannu tuag at drefniadau rheoli risg effeithiol o fewn sefydliad:

- Diwylliant risg ac arweinyddiaeth
- Archwaeth Risg ac Arweinyddiaeth
- Llywodraethiant
- Methodoleg
- Pobl a hyfforddiant
- Prosiectau, partneriaethau a'r gadwyn gyflenwi

27. Gyda'r model ZM, bu modd gwneud ynghylch i ba raddau y mae rheoli risg yn cael effaith positif ar y sefydliad. Daeth ZM i'r casgliad bod rheolaeth risg ar lefel '**Reoledig**' o fewn y pum lefel aeddfedrwydd fel â ganlyn:



28. Nododd ZM:

29. *“Ers 2015, mae uwch dîm newydd wedi ei sefydlu yn CSYM, wedi iddo fod mewn mesurau arbennig ac mae'r Cyngor yn awr yn symud ymlaen i sefydlu trefniadau rheoli risg yn gadarn. Mae tystiolaeth glir bod y sefydliad yn cydnabod yr angen i annog ac ymgysylltu mewn rheolaeth risg traws-wasanaeth ehangach.*

30. Mae nifer presennol y risgiau strategol ar y gofrestr risg i weld yn anghymesur ag Awdurdodau Lleol (tua 37 risg). Fel arfer mae rhwng 10 a 15 risg yn cael eu rheoli ar Lefel Gorfforaethol / Strategol. Ni fydd y symudiad diweddar i system 4risk newydd, tra'n gam positif, yn hwyluso newid yn y diwylliant risg presennol ac aeddfedrwydd risg yn CSYM. Mae pocedi unigol o wasanaethau sy'n ymgysylltu'n llawn â'r Rheolwr Risg ac Yswiriant ac sy'n mynd ati yn rheolaidd i ddiweddarau 4risk yn ôl y gofynion. Bu'r cyfweiliadau ddatgelu nad yw'r broses o reoli risg, am amrywiaeth o resymau, wedi ei sefydlu'n gadarn ac yn llawn ar draws y Cyngor.

31. Mae'n ymddangos bod agwedd dameidiog tuag at gofnodi risgiau prosiect yn ffurfiol; defnyddir ffurf o PRINCE 2 ar draws CSYM ar hyn o bryd, fodd bynnag nid yw templed RAID² safonol yn cael ei fabwysiadu na'i gwblhau ar draws portffolio prosiectau presennol y Cyngor. Pan ofynnwyd am hyn yn ystod y broses gyfweld fe nodwyd yr ystyrir theori risgiau'r prosiect o'r dechrau. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth na dogfennaeth er mwyn cefnogi'r honiad hwnnw. Bu canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol diweddar gan CSYM lle ystyriwyd yr agwedd tuag at reoli prosiect fel un â "Sicrwydd Rhesymol" godi materion / risgiau sy'n cefnogi'r safbwynt ymhellach. Argymhellir y dylai Rheolwyr Risg ystyried y rôl y gallant ei chwarae wrth gefnogi darpariaeth prosiect llwyddiannus ar draws CSYM a drwy gydol cylch bywyd y prosiect.

32. Er efallai bod rhai o'r meysydd asesiadau gwaelodlin yn ymddangos yn isel, mae tystiolaeth bod gwelliannau yn gymharol hawdd i'w gweithredu. Gellid cyflawni lefelau aeddfedrwydd uwch yn hawdd petai'r risgiau strategol yn cael eu hadolygu a'u cytuno arnynt ar lefelau sy'n haws eu rheoli. Mae'r diffyg diweddarau risgiau, rheoliadau a gweithredoedd lliniaru gan ddefnyddio'r modiwlau 4risk a 4action hefyd yn bryder sylweddol o ran darparu sicrwydd bod risgiau yn cael eu rheoli a'u cydlynu yn effeithiol ar draws yr holl wasanaethau.

33. Mae nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella:

- Adnewyddu'r cofrestr risg Strategol a Gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth yn dilyn cyflwyniad 4risk gyda phwyslais ar adnabod y risgiau allweddol sy'n effeithio ar CSYM yn unig.
- Ystyried risg Brexit ar lefel Strategol – gan ystyried amlygrwydd y Porthladd yng Nghaergybi a chynigion Gorsaf Bŵer Wylfa / effeithiau cyllidol tymor hir.
- Adolygu sut mae risgiau o fewn prosiectau (a phartneriaethau) yn cael eu cynnwys o fewn y trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol. Cynrychiolaeth tîm rheoli risg, gwelededd ac amlygrwydd.

² [Mae RAID yn acronym ar gyfer Risgiau, Tybiaethau, Materion a Dibyniaethau]

- *Sicrhau bod dogfennaeth Prosiect Risg a Prince 2 a dulliau adnabod risg wedi eu halinio er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus.*
- *Adnabod Pencampwyr Risg enwebedig o fewn pob gwasanaeth er mwyn cefnogi a mewnosod gweithrediad cyson a defnydd o 4risk."*

34. Roedd y canlyniad fel y disgwyl ac rydym ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r sylwadau / argymhellion a godwyd gan ZM.

Atodiad A – Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2018/19³

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Cynllun Diwygiedig 2018/19	Nifer dyddiau gwirioneddol ar 27/01/19	Nodiadau / Lefel Sicrwydd	Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor
CORFFORAETH GYFAN							
Corfforaethol	Parhad Busnes	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 - YM9 C1 - YM38	10	2		Ebrill 2019
Corfforaethol	Diwygio Lles	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM10	10	1.5		Ebrill 2019
Corfforaethol	Diogelu Corfforaethol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D2 ⁴ YM11	7	7	Sicrwydd Rhesymol	Rhagfyr 2018
Corfforaethol	CONTEST (Atal Terfysgaeth ac Atal Radicaleiddio)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	E1 YM27	10	3.5		Ebrill 2019
Corfforaethol	Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D1 YM34	10	7.75		Ebrill 2019
Corfforaethol	Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM31	8	8	Sicrwydd Rhesymol	Rhagfyr 2018
Corfforaethol	Caffael Corfforaethol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D2 - YM20 D2 - YM22	18	18	Sicrwydd Rhesymol	Rhagfyr 2018
Corfforaethol	Rheoli Risg	Proses newydd wedi'i gweithredu ym mis Hydref 2017. Meddalwedd 4Risk wedi'i gweithredu Medi 2018.	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Lefel 3 'Rheoledig' ⁵	Chwefror 2019

Tudalen 47

³ Cofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i chymeradwyo gan yr UDA 10/09/18

⁴ Risg Gweddilliol wedi lleihau o C1 (Coch) i D2 (Ambr)

⁵ Risg Gweddilliol wedi lleihau o C1 (Coch) i D2 (Ambr)

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Cynllun Diwygiedig 2018/19	Nifer dyddiau gwirioneddol ar 27/01/19	Nodiadau / Lefel Sicrwydd	Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor
Corfforaethol	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Mae'n destun adolygiad penodol gan Swyddfa Archwilio Cymru	Amherthnasol	0	0	Wedi'i rowlio ymlaen i 2019/20	
Corfforaethol	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – gofynion Rhan 9	Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Estyniad gan LIC i weithredu cyllidebau wedi'u cyfuno	Amherthnasol	0	0	Yn amodol ar ymgynghoriad – wedi'i rowlio ymlaen i 2019/20	
Corfforaethol	Rheoli Risg Twyll	Gofyniad gan PSIAS	Amherthnasol	0	0	Wedi'i rowlio ymlaen i 2019/20	
ADNODDAU							
Adnoddau	Adennill a Dileu dyledion (benthyciadau ceir)	Systemau Ariannol Allweddol – pryderon A151	Amherthnasol	10	3.5		Ebrill 2019
Adnoddau	Incwm – Dilyn i Fyny Môn Ddyledwyr	System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol	Amherthnasol	15	18	Sicrwydd Cyfyngedig	Rhagfyr 2018
Adnoddau	Cyflogres	System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol	Amherthnasol	0	0	Yn amodol ar newidiadau parhaus – wedi'i rowlio ymlaen i 2019/20	
TRAWSNEWID							
TGCh	Archwiliad TG – Seiber Ddiogelwch	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1 YM28	20	20	Sicrwydd Rhesymol	Chwefror 2019
AD	Recriwtio a Chadw	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM5	15	8		Ebrill 2019

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Cynllun Diwygiedig 2018/19	Nifer dyddiau gwirioneddol ar 27/01/19	Nodiadau / Lefel Sicrwydd	Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor
RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD							
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Rhaglen Ynys Ynni	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 - YM13 C2 - YM16 D2 - YM17	0	0	Wedi'i rowlio ymlaen i 2019/20	
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden – buddsoddiad ariannol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B3 YM32	0	0	Wedi'i rowlio ymlaen i 2019/20	
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth	Cais y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol mawr. Wedi'i gario drosodd o 2017 / 1	Amherthnasol	15	4.75		Ebrill 2019
PRIFYRDD, GWASTRAFF A GWASANAETHAU EIDDO							
Priffyrdd	Gwasanaethau Parcio Ceir – Gorfodaeth	Peilot newydd mewn lle o 2017/18 gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodi rheolau parcio	Amherthnasol	0	0	Dilëwyd – blaenoriaeth isel	
Priffyrdd	Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd	Cais y Pennaeth Gwasanaeth	Amherthnasol	10	10	Sicrwydd Sylweddol	Medi 2018
TAI							
Tai	Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM29	10	6.75		Ebrill 2019
GWASANAETHAU OEDOLION							
Oedolion	Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM25	9	9	Sicrwydd Rhesymol	Gorffennaf 2018
Oedolion	Taliadau Uniongyrchol	Cais y Pennaeth Gwasanaeth (cariwyd ymlaen o 2017/18)	Amherthnasol	20	18.75		Medi 2018 Ebrill 2019

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Cynllun Diwygiedig 2018/19	Nifer dyddiau gwirioneddol ar 27/01/19	Nodiadau / Lefel Sicrwydd	Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor
GWASANAETHAU PLANT							
Plant	Bwrdd Integredig Cyflenwi Gwasanaeth	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM36	0	0	Wedi'i rowlio ymlaen i 2019/20	Ebrill 2019
DYSGU							
Dysgu	Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – gweithredu mewn Ysgolion	Cofrestr Risg Gorfforaethol. Bydd yn ddibynnol ar Wiriad Iechyd annibynnol gan ein hyswirwyr.	C2 YM38	Amherthnasol	Amherthnasol		Ebrill 2019
Dysgu	Adolygiadau Thematig Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm Ysgolion	Cais y Pennaeth Gwasanaeth		20	20	Sicrwydd Cyfyngedig	Medi 2018 Rhagfyr 2018
ARDYSTIO GRANTIAU							
	Grant Rhentu Doeth Cymru	Anghenion grantiau	Amherthnasol	10	10	Sicrwydd Sylweddol	Gorffennaf 2018
	Grant Gwisg Ysgol					Sicrwydd Rhesymol	Medi 2018
	Grant Gwella Addysg					Sicrwydd Sylweddol	Medi 2018
	Grant Datblygu Disgyblion					Sicrwydd Sylweddol	Medi 2018
	CYFANSWM DYDDIAU ARCHWILIO			235	175.75		
DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)							
	Gwaith Dilyn i Fyny	Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd a gweinyddu 4Action		70	65.75		

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Cynllun Diwygiedig 2018/19	Nifer dyddiau gwirioneddol ar 27/01/19	Nodiadau / Lefel Sicrwydd	Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor
	Menter Dwyll Genedlaethol			10	8.5		
	Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, ymholiadau ac atgyfeiriadau			50	42.25		
	Cau gwaith y flwyddyn flaenorol			19	19		
	Ymgynghoriaeth Corfforaethol			60	50.5		
	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau			40	35.25		
	Adolygiad Rheoli			25	18.5		
	CYFANSWM			269	239.25		
DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DDIM YN GYNHYRCHIOL)							
	Risg ac Yswiriant			20	16.75		
	Gweinyddu Cyffredinol			40	32		
	Datblygiad Personol ac Adolygiad, Cyfarfodydd 121 a Thîm			20	9.25		
	Rheoli, yn cynnwys cysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio			40	31		
	Gwyliau, yn cynnwys blynyddol, statudol, arbennig a salwch			362	285.75		
	Hyfforddiant a Datblygiad staff, yn cynnwys sesiynau			111	84.25		

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Cynllun Diwygiedig 2018/19	Nifer dyddiau gwirioneddol ar 27/01/19	Nodiadau / Lefel Sicrwydd	Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor
	cynefino a gwersi Cymraeg						
	CYFANSWM			593	459		
	CYFANSWM ADNODD			1096			
	ADNODD SYDD AR GAEL			1096			
	DIFFYG O RAN ADNODD			0			

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Dyddiad:	12 Chwefror 2019
Pwnc:	Argymhellion Archwilio Mewnol / Materion a Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Nanette Williams, Uwch Archwilydd 01248 751809 NanetteWilliams@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar statws a manylion y risgiau a godwyd gan Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw.	

1. Rhagarweiniad


- 1.1. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am fanylion am yr holl argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw ddwywaith y flwyddyn. Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018.

2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran rhoi sylw i'r argymhellion Archwilio Mewnol sy'n weddill a'r Materion/Risgiau a godwyd ers 1 Ebrill 2014.

3. Perfformiad o ran Gweithredu Argymhellion sy'n weddill a Materion / Risgiau a godwyd gan Archwilio Mewnol

- 3.1. Fel yr adroddwyd o'r blaen, mae Archwilio Mewnol wedi symud i ffwrdd o wneud argymhellion i godi 'Materion' a 'Risgiau'.
- 3.2. Er mwyn annog rheolwyr i gymryd perchenogaeth o'r risgiau, eu cyfrifoldeb hwy yw datblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r materion / risgiau a godwyd.
- 3.3. Caiff materion / risgiau eu dilyn i fyny trwy fonitro sut y rhoddwyd sylw i'r risgiau. Bydd adroddiadau sydd wedi derbyn lefel Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim' Sicrwydd yn rhan o broses ddilyniant ffurfiol gan Archwilio Mewnol lle na chaiff risgiau eu cau heb dderbyn tystiolaeth sy'n dangos bod camau digonol wedi'u cymryd i liniaru'r risgiau. Caiff yr holl faterion / risgiau eraill eu monitro trwy system tracio gweithredu corfforaethol y Cyngor (4action), sy'n cael ei weinyddu'n fewnol.
- 3.4. Er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar dueddiadau, mae'r graff isod yn amlygu'r perfformiad yng nghyswllt rhoi sylw i'r materion / risgiau:



- 3.5. Fel y gwelwch, mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn raddol ac mae'r ganran weithredu gyffredinol yn **93%** ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bu gostyngiad bach yn y perfformiad wrth roi sylw i faterion/risgiau Uchel/Coch/Ambr, fel mae'r graff yn ei ddangos, o **93%** yn chwarter 3 i **87%** yn chwarter 4 hyd yma. Mae hyn oherwydd i nifer o faterion/risgiau fod angen sylw

ym mis Rhagfyr gan y Gwasanaeth Dysgu, ac ar yr un pryd bu newid yn y staff sy'n gyfrifol am ddiweddarau 4action.

4. Yr Argymhellion a Materion / Risgiau sy'n Parhau i fod Angen Sylw ar hyn o bryd

4.1. Fel ar 27 Ionawr 2018, mae'r Cyngor yn parhau i fod angen rhoi sylw i'r argymhellion a'r Materion/Risgiau a ganlyn (manylion yn [Atodiad A](#)):

Hyd at 27/01/2019	Uchel	Coch	Ambr	Canolig	Melyn	Isel	Gwyrdd	Cyfanswm
Cyfanswm Wedi eu Gweithredu	76	9	47	322	102	206	39	801
Cyfanswm Heb eu Gweithredu	0	1	18	7	18	12	3	59
Cyfanswm	76	10	65	329	120	218	42	860
% Gweithredwyd	100%	90%	72%	98%	85%	94%	93%	93%
% Uchel Coch Ambr Wedi eu Gweithredu	87%							
% Canolig Melyn Wedi eu Gweithredu	94%							
% Isel Gwyrdd Wedi eu Gweithredu	94%							

Atodiad A – Argymhellion a Materion / Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw

Yr holl Faterion/Risgiau Archwilio Mewnol **Uchel, Coch** ac **Ambr** sy'n weddill i roi sylw iddynt, gyda dyddiad targed hyd at 27/01/2018

Cyf	Adroddiad	Mater / Risg	Dyddiad y cafodd ei Godi	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau	
Gwasanaethau Plant							
Tudalen 56	1	Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan y PLO 044 2016/17	Canfuwyd nad oedd 4 o ymweliadau gan Weithiwr Cefnogol wedi cael eu cynnal yn unol â'r cynllun gofal pan oedd achos yn mynd trwy'r llys. Canlyniad hyn yw nad yw plant yn cael eu gweld a chânt eu cefnogi am gyfnod hirach o amser nag yr aseswyd sy'n angenrheidiol yn ôl y risg a adnabwyd. Mae risg o niwed emosiynol a/neu gorfforol i'r plentyn.	27/01/17	31/01/18 wedi newid o 31/03/17	Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi	Ymweliad Dilynol Cyntaf 161744f1 – Mae'r holl ymweliadau gan Weithwyr Cymdeithasol yn cydymffurfio â'r holl gynlluniau gofal. Gallai diffyg cydymffurfiaeth arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn yr aelod o staff. Ail Ymweliad Dilynol 161744f2 – cyhoeddwyd adroddiad drafft 23/01/19.
	2	Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan y PLO 044 2016/17	1 Mae profion wedi dangos nad yw'r Protocol Achosion Gofal, Amlinell Cyfraith Gyhoeddus a Materion Cyfreithiol 2016 bob amser yn cael ei ddilyn mewn sefyllfaoedd sy'n gofyn am weithrediad cyflym. Ni chafodd cyfarfod "Legal Gatekeeping" Brys ei gynnal o fewn 24 awr o'r penderfyniad i gynnal cyfarfod o'r fath. Gall hyn olygu nad yw penderfyniadau a chymau gweithredu yn cael eu gwneud yn brydlon, a bod risg i blentyn dderbyn niwed emosiynol a/neu gorfforol.	27/01/17	31/01/18 wedi newid o 31/09/16	Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau.	Ymweliad Dilynol Cyntaf 161744f1 – Mae'r holl ymweliadau gan Weithwyr Cymdeithasol yn cydymffurfio â'r holl gynlluniau gofal. Gallai diffyg cydymffurfiaeth arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn yr aelod o staff. Ail Ymweliad Dilynol 161744f2 – cyhoeddwyd adroddiad drafft 23/01/19.
	3	Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan	2 Nid yw sêl bendith Rheolwyr Tîm i benderfyniadau i fynd ag achosion ymlaen i gyfarfodydd "Legal Gatekeeping" yn cael eu cofnodi. Gwelwyd yn ogystal nad yw	27/01/17	31/01/18 wedi	Rheolwr Gwasanaeth	Ymweliad Dilynol Cyntaf 161744f1 – Mae'r holl ymweliadau gan Weithwyr Cymdeithasol yn cydymffurfio â'r holl gynlluniau gofal. Gallai diffyg

Cyf	Adroddiad	Mater / Risg	Dyddiad y cafodd ei Godi	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
Tudalen 57	y PLO 044 2016/17	dogfennau megis cyfarfodydd cyn-achos, cofnodion o gyfarfodydd adolygu PLO, llythyrau cyn-achos, llythyrau o fwriad i weithredu a chofnodion, bob amser yn cael eu llwytho ar y system electronig neu'n cael eu llwytho'n brydlon i'r system a'u cynnwys yn erbyn cofnod brawd neu chwaer perthnasol. Gall hyn arwain at wybodaeth anghyflawn ac ansicrwydd ynghylch lle mae'r wybodaeth yn cael ei chadw, ac o ganlyniad mae risg y bydd diffyg tystiolaeth ddigonol ar gael pan aiff achos i'r llys ac ansicrwydd bod y penderfyniadau priodol wedi'u gwneud.		newid o 31/01/17	Corfforaethol a Phartneriaethau.	cydymffurfiaeth arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn yr aelod o staff. Ail Ymweliad Dilynol 161744f2 – cyhoeddwyd adroddiad drafft 23/01/19.
	Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan y PLO 044 2016/17	3 Mae profion wedi dangos nad yw'r llythyrau Cyn Achos a llythyrau o Fwriad / Hysbysiad o Fwriad a chyfarfodydd cyn-achos bob amser yn cydymffurfio â'r Protocol Achosion Gofal, Amlinell Cyfraith Gyhoeddus a Materion Cyfreithiol 2016. Ymhellach i hyn, nid oedd y llythyrau bob amser yn cael eu hanfon at yr holl unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant. Nid yw rhieni felly'n cael eu hysbysu'n briodol am y broses a ddilynwyd neu y penderfyniad a wnaed a beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt er mwyn gwella materion. Gallai hyn olygu bod niwed emosiynol a/neu gorfforol yn parhau i'r plentyn a pheri gofid i bawb sydd ynghlwm.	27/01/17	31/01/18 wedi newid o 31/03/17	Rheolwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phartneriaethau.	Ymweliad Dilynol Cyntaf 161744f1 – Mae'r holl ymweliadau gan Weithwyr Cymdeithasol yn cydymffurfio â'r holl gynlluniau gofal. Gallai diffyg cydymffurfiaeth arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn yr aelod o staff. Ail Ymweliad Dilynol 161744f2 – cyhoeddwyd adroddiad drafft 23/01/19.
	5	Gwasanaeth Maethu –	5 Mae'r Tîm Lleoli Plant yn cael trafferth cwrdd â'r targedau 'Buddsoddi i Arbed' a sefydlwyd yn 2013/14 ac mae'r ffigurau recriwtio gofalwyr maeth yn gostwng yn	25/05/18	30/09/18	Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys,

Cyf	Adroddiad	Mater / Risg	Dyddiad y cafodd ei Godi	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
Tudalen 58 6	Recriwtio a Chadw 171820	<p>gyffredinol. O ganlyniad, mae'r opsiynau o leoliadau priodol yn lleihau.</p> <p>Yn ogystal, mae'r ffigurau maethu a recriwtio sy'n cael eu hadrodd gan NFF ar berfformiad awdurdodau Gogledd Cymru yn awgrymu mai Cyngor Sir Ynys Môn oedd â'r gyfradd gyfnewid isaf un (o'r ymholiad cyntaf i'r pwynt cymeradwyo), o gymharu ag awdurdodau eraill yn 2016/17.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth wedi adnabod rhai ffactorau a all fod wedi cyfrannu at fethiant y gwasanaeth i recriwtio'r nifer targed o ofalwyr maeth o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Tynnwyd sylw'r Panel Rhiant Corfforaethol at y ffactorau hyn.</p> <p>Ar y cyfan, mae risg y bydd y galw'n cynyddu am leoliadau allanol, gan gynyddu'r costau i'r Cyngor.</p>			Gwasanaethau Plant	
	Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol 076 2016/17	<p>5.1.6 Nid oes gan y Cyngor sicrwydd bod ei holl wariant wedi cael ei gaffael yn gywir ac mae'n bosibl bod y Cyngor wedi gwario weithiau heb gynnal ymarfer caffael cystadleuol ffurfiol. O'r herwydd, nid oes contractau addas i bwrpas mewn lle ac nid yw materion megis diogelu, diogelwch a gwerth am arian wedi cael eu hystyried.</p>	12/06/17	31/03/18	Pennaeth Gwasanaethau Plant	<p>161776f2 – Ail Adolygiad Dilydol</p> <p>Cadarnhaodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol ei bod wedi cynnal cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn adnabod holl gontractau a thendrau y dyfodol, i sicrhau bod pob un yn cael ei adnabod ar gyfer gweithgarwch caffael.</p> <p>Mae gwasanaethau naill ai wedi cwblhau neu maent yn y broses o adolygu'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir gan ddarparwyr allanol i sicrhau eu bod wedi cydymffurfio â rheoliadau caffael a bod contractau addas i bwrpas mewn lle.</p>

Cyf	Adroddiad	Mater / Risg	Dyddiad y cafodd ei Godi	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau	
Tai							
Tudalen 59	7	Rhenti Tai – Parodrwydd am Gredyd Cynhwysol 171818	10 Nid yw system Rhenti yr Adran Dai (Orchard) wedi ei diweddarau ddigon ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r prosesau adfer. Mae'r rhestrî ôl-ddyledion yn cynyddu oherwydd yr anawsterau efo cyfrifo a rheoli taliadau misol ar system sy'n gweithio ar sail rhenti wythnosol. Yn ogystal, mae argymhellion ar gyfer ymyrraeth adfer rhenti yn cael eu hailadrodd bob wythnos er bod y materion wedi cael sylw, e.e. taliadau rheolaidd wedi'u derbyn gan y tenant ond mae dal yn dangos ôl-ddyledion. O ganlyniad, nid yw'r system yn gallu adnabod problemau ôl-ddyledion gwirioneddol, sy'n gwneud y prosesau adfer yn aneffeithlon.	24/01/18	31/10/18	Swyddog Systemau Gwybodaeth a Pherfformiad Tai	Bydd yr Uwch Swyddog Rheoli Tai yn diweddarau'r system Orchard pan gaiff y gweithdrefnau newydd eu mabwysiadu.
	8	Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol 076 2016/17	5.1.3 Nid oes gan y Cyngor sicrwydd bod ei holl wariant wedi cael ei gaffael yn gywir ac mae'n bosibl bod y Cyngor wedi gwario weithiau heb gynnal ymarfer caffael cystadleuol ffurfiol. O'r herwydd, nid oes contractau addas i bwrpas mewn lle ac nid yw materion megis diogelu, diogelwch a gwerth am arian wedi cael eu hystyried.	12/06/17	31/03/18	Pennaeth Gwasanaethau Tai	161776f2 – Ail Adolygiad Dilynol Cadarnhaodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol ei bod wedi cynnal cyfarfodydd gyda Phenaeithaid Gwasanaeth er mwyn adnabod holl gontractau a thendrau y dyfodol, i sicrhau bod pob un yn cael ei adnabod ar gyfer gweithgarwch caffael. Mae gwasanaethau naill ai wedi cwblhau neu maent yn y broses o adolygu'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir gan ddarparwyr allanol i sicrhau eu bod wedi cydymffurfio â rheoliadau caffael a bod contractau addas i bwrpas mewn lle.
Adnoddau							
	9	Cydymffurfiaeth â PCI DSS 066 2016/17	1.5a Nid yw amgylchedd cardiau debyd / credyd y Cyngor wedi cael ei fapio i adnabod y math o drafodion sy'n digwydd a	22/09/16	02/02/18	Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau	Hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Gweithredu'n unol â'r Cynllun Gweithredu PCI DSS.

Cyf	Adroddiad	Mater / Risg	Dyddiad y cafodd ei Godi	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
		<p>Ile mae'r rhain yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r amgylchedd.</p> <p>Mae risg felly nad yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r amgylchedd talu â cherdyn ac felly nad yw'n gallu gwarchod ei ddiogelwch yn ddigon da gan arwain at golli data deiliaid y cardiau.</p>				
10	Cydymffurfiaeth â PCI DSS 066 2016/17	<p>1.1a Nid oes unrhyw gynllun neu raglen ffurfiol sy'n cael ei adolygu / diweddarau'n rheolaidd, neu pan fo newid mawr yn digwydd, i sicrhau cydymffurfiaeth gorfforaethol gyda PCI DSS.</p> <p>Gall hyn olygu bod y gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth yn aneffeithiol ac yn aneffeithlon heb unrhyw amserlenni i sicrhau gweithredu prydlon, ac felly diffyg cydymffurfiaeth. Gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at gostau trafodion uwch, niwed i enw da a/neu gyfyngiadau neu dynnu'n ôl yn llwyr o raglenni derbyn taliadau cerdyn.</p>	22/09/16	01/06/18	Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau	Cynllun Gwella Prosiect PCI DSS ar waith. Mae'r PCI DSS drafft allan i ymgynghoriad ar hyn o bryd.
11	Rhenti Tai – Parodrwydd am Gredyd Cynhwysol 171818	<p>8 Mae'r Gwasanaeth Tai ar hyn o bryd yn rhoi'r opsiwn i denantiaid dalu drwy archeb sefydlog. Caiff cysoniadau banc eu gwneud â llaw ar hyn o bryd; felly mae'n bosib nad yw taliadau drwy archeb sefydlog yn cael eu hadnabod a'u codio i'r cyfrif cywir yn brydlon, yn ddibynnol ar adnoddau. Mae'r Adran Incwm yn treialu gweithredu system awtomatig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae risg na fydd y cysoniadau banc yn mynd drwy'r system awtomatig erbyn y dyddiad 'mynd yn fyw'. Mae taliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) hefyd yn cael eu postio â llaw ar hyn o bryd sy'n effeithio ar</p>	24/01/18	31/03/18	Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau	Mae hyn yn ffurfio rhan o'r Cynllun Gwella 2018/19 ar gyfer Gwella Incwm. Mae'r dyddiad cyflwyno CC wedi'i ohirio tan fis Rhagfyr, 2018. Camau gweithredu i'r Adran Dai – trosglwyddo taliadau drosodd, symud o Archeb Sefydlog i Ddebyd Uniongyrchol.

Tudalen 60

Cyf	Adroddiad	Mater / Risg	Dyddiad y cafodd ei Godi	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
		pa mor brydlon cânt eu derbyn (treth gyngor a rhenti).				
Dysgu						
Tudalen 61	12	Archwiliad Thematig mewn Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm 171813	06/11/18	30/11/18	Swyddog Effeithiolrwydd Ysgolion Swyddog Prosiect Cefnogi Busnes Ysgolion	Roedd yr ymateb y cytunwyd arno gan reolwyr i'r mater / risg hwn yn cynnwys tri cham gweithredu gan y rheolwyr i ddigwydd yn y cyfnod diweddar hwn, sy'n cael eu cofnodi ar wahân ar 4Action.
	13	Archwiliad Thematig mewn Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm 171813	06/11/18	30/11/18	Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad Swyddog Gweinyddol Swyddog Prosiect Cefnogi Busnes Ysgolion	Roedd yr ymateb y cytunwyd arno gan reolwyr i'r mater / risg hwn yn cynnwys tri cham gweithredu gan y rheolwyr i ddigwydd yn y cyfnod diweddar hwn, sy'n cael eu cofnodi ar wahân ar 4Action.
Gwasanaethau Oedolion						
	14	Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol 076	12/06/17	31/12/18	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion	161776f2 – Ail Adolygiad Dilynol Cadarnhaodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol ei bod wedi cynnal cyfarfodydd gyda Phenathiaid Gwasanaeth er mwyn adnabod holl gontractau a

Cyf	Adroddiad	Mater / Risg	Dyddiad y cafodd ei Godi	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
	2016/17	contractau addas i bwrpas mewn lle ac nid yw materion megis diogelu, diogelwch a gwerth am arian wedi cael eu hystyried.				thendrau y dyfodol, i sicrhau bod pob un yn cael ei adnabod ar gyfer gweithgarwch caffael. Mae gwasanaethau naill ai wedi cwblhau neu maent yn y broses o adolygu'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir gan ddarparwyr allanol i sicrhau eu bod wedi cydymffurfio â rheoliadau caffael a bod contractau addas i bwrpas mewn lle.
Trawsnewid						
15	Cydymffurfiaeth â PCI DSS 066 2016/17	3.3 Nid oes proses i asesu a chofnodi effaith newidiadau i'r isadeiledd TGCh ar gydrannau PCI DSS. Mae risg y gallai unrhyw newidiadau beryglu diogelwch data deiliaid y cardiau.	22/09/16	30/04/18	Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad	

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	12 CHWEFROR 2019
PWNC:	DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2019/20
SWYDDOG ARWEINIOL:	MARC JONES
SWYDDOG CYSWLLT:	GARETH ROBERTS (RHIF FFÔN: EST 2675)
Natur a rheswm dros adrodd	
I bwrpas craffu – yn unol â chyfarwyddyd proffesiynol.	

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (CIPFA) ar faterion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymhell y dylai'r Aelodau sgriwteiddio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn iddo gael ei fabwysiadu (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad Polisi MRP Blyneddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar Reoli Trysorlys). Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.
2. Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymhell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Bolisiau Rheoli Trysorlys a'r atodlenni cysylltiedig ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriwteiddio gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi creu CRhT wedi'u dogfennu, a chawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2016. Roedd yna newid i'r CRhT yn y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19, sef cynyddu isafswm y balans ariannol o £5m i £6m yn unol â'r polisi arian wrth gefn diweddaraf a gafodd ei gymeradwyo.
3. O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, nid oes unrhyw fwriad i newid yr egwyddorion a'r polisiau craidd sydd yn Natganiad 2018/19.
4. Dan y Côd Ymarfer diwygiedig, mae bellach yn angenrheidiol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen a'r modd y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei ariannu. Bydd y strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd dan y Strategaeth Gyfalaf ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor ac yn nodi'r modd y bydd y ddau beth yn cael eu rheoli, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd o ystyried y canllawiau sydd wedi eu gosod yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys.
5. **Argymhellion**
 - Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau ar gyfer eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD POLISI AR Y DDARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A'R DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2019/20****1. CEFNDIR****1.1.** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:

“The management of the local authority’s borrowing, investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks.”

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisiau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**)

1.2. Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu yn gyffredinol y bydd cyfanswm yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrth-bartïon sy'n cwrdd â'r meini prawf o ran diogelwch, hylifedd a dychweliad ar fuddsoddiadau fel y nodir yn y strategaeth hon.**1.3.** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthycar'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.**1.4.** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r awdurdod yn hollbwysig oherwydd mae balans dyled a gweithgareddau buddsoddi'n sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymadau o ran gwariant pan mae angen, naill ai ar gyfer prosiectau refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld balans y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuron ariannol a'r effaith a gânt at y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau ariannol fel rheol yn codi o arian wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli prifsymiau arwain at golled yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor.**2. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS****2.1.** Yn unol â Chôd CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r modd y byddant yn cael eu rheoli.
- Strategaeth Rheoli Trysorlys a fydd yn nodi strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf ac sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthycar, yn penderfynu ar gyfres o ddangosyddion pwylllog ac yn penderfynu ar awch a strategaeth y Cyngor o ran risg mewn perthynas â buddsoddiadau.

2.2. Nodir prif egwyddorion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

3. CYD-DESTUN ALLANOL

3.1. Ni fedrir gosod y Strategaeth Rheoli Trysorlys fel ymarfer ar ei ben ei hun, rhaid ystyried y sefyllfa economaidd oherwydd mae'n cael effaith ar gyfraddau llog ar fuddsoddiadau, costau benthyca a chadernid ariannol y gwrth-bartïon. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Twf economaidd sy'n gwahanu yn yr Unol Daleithiau, Tsieina a'r Parth Ewropeaidd.
- Lefelau chwyddiant sy'n parhau i fod yn isel yn y DU gyda'r cyfraddau ar neu'n agos i darged Banc Lloegr o 2%.
- Posibilrwydd y bydd cyfraddau llog yn codi o ddiwedd 2019 ymlaen.
- Yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit a'i effaith a'r economi'r DU a'r Parth Ewropeaidd.
- Mae dychweliadau ar fuddsoddiadau'n debygol o barhau i fod yn isel yn ystod 2019/20 ond y byddant yn codi'n raddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

3.2. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael ac wedi ystyried y cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nod sefyllfa'r Cyngor o ran lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

Tabl 1
Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at fis Mawrth 2022

Cyfartaledd Blynnyddol	Cyfradd Banc (%)	Cyfraddau Benthyca PWLB (yn cynnwys addasiad ar gyfer graddfa sicrwydd)		
		5 mlynedd	25 mlynedd	50 mlynedd
Rhagfyr 2018	0.75	2.00	2.90	2.70
Mawrth 2019	0.75	2.10	2.90	2.70
Mehefin 2019	1.00	2.20	3.00	2.80
Medi 2019	1.00	2.20	3.10	2.90
Rhagfyr 2019	1.00	2.30	3.10	2.90
Mawrth 2020	1.25	2.30	3.20	3.00
Mehefin 2020	1.25	2.40	3.30	3.10
Medi 2020	1.25	2.50	3.30	3.10
Rhagfyr 2020	1.50	2.50	3.40	3.20
Mawrth 2021	1.50	2.60	3.40	3.20
Mehefin 2021	1.75	2.60	3.50	3.30
Medi 2021	1.75	2.70	3.50	3.30
Rhagfyr 2021	1.75	2.80	3.60	3.40
Mawrth 2022	2.00	2.80	3.60	3.40

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Link Asset Services ynghlwm yn **Atodiad 4**.

3.3. Yn wyneb y rhagolygon ar gyfer cyfraddau sylfaenol y banciau, disgwylir y dychweliadau a ganlyn ar fuddsoddiadau yn ystod y blynnyddoedd ariannol a nodir:-

2018/19: 0.75%;

2019/20: 1.00%;

2020/21: 1.50%;

2021/22: 1.75%;

2022/23: 1.75%;

2023/24: 2.00%;

2024/25 Ymlaen: 2.50%

4. SEFYLLFA GYFREDOL Y CYNGOR

4.1. Benthycia

4.1.1. Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

Tabl 2
Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd

BENTHYCIADAU PWLB						
	PWL / PWLB Maturity	PWLB EIP/Blwydd-dal	Market Loans	PWLB Variable	Total Maturing	
Benthyciad sy'n weddill	£121,184k	£236k	£0k	£0k	£121,415k	
Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd)	24.63	7.61	0.00	0.00	24.60	
Cyfradd ar gyfartaledd (%)	5.26	9.41	0.00	0.00	5.15	
BENTHYCIADAU ERAILL						
	Llywodraeth Cymru	Salix Benthyciad 1	Salix Benthyciad 2	Salix Benthyciad 3	Salix Benthyciad 4	Cyfanswm
Balans sy'n Weddill	£88k	£90k	£319k	£635k	£264k	£1,397k
Dyddiad Ad-dalu	2020/21	2024/25	2025/26	2028/29	2027/28	
Cyfradd Llog (%)	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	

4.2. Buddsoddiadau

4.2.1. Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuoedd tymor byr a chyfrifon 'ar alw'. Mae'r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2018 oedd £5.7m).

4.2.2. Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae'r cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau yn y lle cyntaf ddiogelwch yr adneuoedd, ei hylifedd yn yr ail le ac yna'r dychweliad ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd y dychweliadau ar fuddsoddiadau'n cael ei haberthu er mwyn sicrhau'r ddwy egwyddor gyntaf ac ar hyn o bryd, mae'r dychweliad cyfartaleddol ar fuddsoddiadau yn 0.38%.

5. EFFAITH CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL AR FENTHYCA

5.1. Caiff gwariant cyfalaf ei ariannu'n rhannol o fenthyciadau ac mae'r rhaglen gyfalaf a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf i'w gweld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2019/20 – 2021/22

	2019/20 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Gwariant nad yw'n ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai	14,620	20,321	20,607
Cyfrif Refeniw Tai	13,110	18,431	19,744
Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau nad ydynt yn rhai Ariannol	3,400	100	0
CYFANSWM Y GWARIANT	31,130	38,852	40,351
Yn cael eu hariannu drwy			
Grantiau Cyfalaf	14,316	12,324	9,424
Derbynebon Cyfalaf	0	0	0
Arian Wrth Gefn	0	0	0
Refeniw	9,450	9,471	10,634
Y Balans a Ariennir o Fenthyciadau	7,364	17,057	20,293

- 5.2.** Ffactor pwysig i'w hystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC (PWLB), mae hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.
- 5.3.** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond gan y swm nad yw'n cael ei ariannu o grantiau, derbyiadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthyca.
- 5.4.** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i'r Cyngor wneud taliad i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn a'r enw ar y taliad hwn yw'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DIR cyn pob blwyddyn ariannol. Ceir y polisi ar gyfer 2019/20 yn **Atodiad 6**. The Cafodd DIR y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ond nid oes unrhyw newidiadau i'r polisi diwygiedig hwnnw ar gyfer 2019/20. Drwy wneud y taliad DIR bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi gyda hynny'n ei dro yn lleihau'r lefel o fenthyca mewnol.
- 5.5.** Bydd y polisi'n darparu ar gyfer taliad cyfartal ar fenthyciadau hyd at 31 Mawrth 2018 ac yn achos yr holl fenthyciadau ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y taliad DIR yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased sydd wedi cael ei gyllido o'r benthyciad, h.y. os cafodd £1m ei fenthyca i gyllido gwariant cyfalaf ar ased sydd ag oes o 20 mlynedd, byddai'r DIR blynyddol ar y benthycais hwnnw'n £50k y flwyddyn. Wrth i ni gymryd fenthyciadau newydd, bydd y taliad DIR yn cynyddu dros amser a chaniatawyd ar gyfer y cynnydd hwn mewn costau yng nghyllidebau'r Cyngor.
- 5.6.** Caiff effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r taliad DIR ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol ei ddangos yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4
Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2018/19 i 2021/22

	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gofyniad Cyllido Cyfalaf				
Balans Agoriadol y CFR	136,866	141,191	145,101	158,468
Gwariant Cyfalaf	32,956	38,130	38,852	40,351
Grantiau Cyfalaf Allanol	(15,605)	(21,316)	(12,324)	(9,424)
Derbyniadau Cyfalaf	(1,826)	0	0	0
Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn	(7,958)	(9,450)	(9,471)	(10,634)
Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw	(3,242)	(3,454)	(3,690)	(3,940)
BALANS CAU'R CFR	141,191	145,101	158,468	174,821
Benthyciadau Allanol				
Balans Agoriadol y Benthyciadau Allanol	117,029	122,812	124,996	137,339
Benthycia i Ariannu Gwariant Cyfalaf	898	7,364	17,057	20,293
Benthycia i Ariannu Ad-daliadau ar Fenthyciadau	5,000	0	0	0
Benthyciadau yn lle Benthycia'n Fewnol	10,000	0	0	0
Ad-dalu Benthyciadau	(10,115)	(5,180)	(4,714)	(173)
Balans Cau Benthyciadau Allanol	122,812	124,996	137,339	157,459
Benthyciadau Mewnol				
Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol	19,837	18,379	20,105	21,129
Replacement of Internal Borrowing	(10,000)	0	0	0
Ariannu Ad-daliadau o Fenthyciadau Allanol	(5,000)	0	0	0
Ad-dalu Benthyciadau Allanol	10,115	5,180	4,714	173
Benthycia i Ariannu Gwariant Cyfalaf	6,669	0	0	0
Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw	(3,242)	(3,454)	(3,690)	(3,940)
Balans Cau Benthyciadau Mewnol	18,379	20,105	21,129	17,362
CYFANSWM Y BENTHYCIADAU	141,191	145,101	158,468	174,821

6. STRATEGAETH FENTHYCA

6.1. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf), heb ei ariannu'n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae'r driniaeth hon yn un ddarbodus oherwydd bod dychweliadau ar buddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrth-bartïon yn fater sy'n parhau i fod angen sylw. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r arian wrth gefn a balansau petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £18.379m yn allanol petai angen brys amdano. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.

6.2. Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2019/20. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig mewn perthynas ag amgylchiadau sy'n newid:-

- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir, (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na'r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cyflymu'r dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn y UDA a'r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn parhau i fod yn is nac y byddent yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r pwyllgor hwn ar y cyfle cyntaf.

6.3. Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

6.3.1. Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli'r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, er enghraifft:-

- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

6.3.2. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, er enghraifft:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu ar y ddyled), felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch buddsoddiadau.

- 2.3. Bydd yn gynllun deinamig; byddaf yn adolygu ac yn addasu'r cynllun yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau a rhaglenni'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol. Byddaf yn adrodd yn ôl ar y newidiadau i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ogystal â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

3. Argymhelliad

- 3.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20.



STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2019-20

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611



TABL CYNNWYS

CYFLWYNIAD _____	1
STRWYTHUR A CHAPASITI'R GWASANAETH _____	2
Cynllunio Archwiliadau ar sail Risg _____	3
Cydydffurfiaeth vs Sicrwydd _____	4
Twyll _____	5
Gwella _____	5
BLAENORIAETHAU _____	6
GWAITH DILYN I FYNY _____	7
ADRODD _____	8
MESURAU PERFFORMIAD _____	9
Meincnodi _____	9
HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD _____	10
Atodiad A: Blaenoriaethau Archwilio Mewnol 2019-20 _____	12
Atodiad B: Diffiniad o'r Graddau Sicrwydd _____	16
Atodiad C: Mesurau Perfformiad a Meincnodi gyda Grwp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG) _____	17

CYFLWYNIAD

Mae Archwilio Mewnol yn dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig ar ansawdd y gweithrediadau o fewn y Cyngor.

Rydym yn gweithredu'n unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus¹ (PSIAS), sy'n diffinio archwilio mewnol fel a ganlyn:

Mae archwilio mewnol yn weithgaredd ymgynghorol a sicrwydd annibynnol a gwrthrychol a ddyluniwyd i ychwanegu gwerth ac i wella gweithrediadau sefydliadau unigol. Mae'n cynorthwyo sefydliad i gyflawni ei amcanion trwy fabwysiadu dull disgybledig a systematig o werthuso a gwella effeithiolrwydd ei brosesau rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth.

Agwedd bwysig ar waith archwilio mewnol yw'r graddau y mae'n helpu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion a gwella. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'n gwaith ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i'r sefydliad, ac mae'n rhaid i'r safbwyntiau a'r awgrymiadau gwella a ddarparwn helpu'r sefydliad a chael eu gwerthfawrogi gan ran-ddeiliaid. Felly, mae amcanion y gwasanaeth fel a ganlyn:

- Darparu sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr ac aelodau etholedig ar faterion rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol.
- Datblygu a hyrwyddo ein rôl i wneud cyfraniad sylweddol at nod y Cyngor i foderneiddio, cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.
- Ychwanegu gwerth ym mhob maes o'n gwaith, gan ddarparu gwasanaeth ardderchog i'n cwsmeriaid.

¹ Mae'r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (CIPFA, Yr Adran Iechyd, Llywodraeth Cymru, Adran Gyllid (Gogledd Iwerddon), Trysorlys EM a Llywodraeth yr Alban) yn cyhoeddi Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017) ac maent yn orfodol i bob llywodraeth leol a chanolog.

STRWYTHUR A CHAPASITI'R GWASANAETH


Mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y Cyngor wedi allanoli swydd y prif swyddog archwilio am 10 mlynedd, tan fis Ebrill 2017, pan benododd ei Bennaeth Archwilio a Risg ei hun ar gyfer y Cyngor.

Ers hynny, rydym wedi mabwysiadu **dull sy'n gwbl seiliedig ar risg** ar gyfer ein gwaith ac rydym wedi gwireddu mesurau effeithlonrwydd pellach trwy fabwysiadu dull 'archwilio darbodus' - methodoleg sy'n seiliedig ar *'Feddwl drwy Systemau'*.

Mae Rheoli Risg ac Yswiriant bellach yn rhan o'r gwasanaeth. Mae gweithio'n agos rhwng dau dîm - Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, wedi dod â buddion ychwanegol i ni wrth fabwysiadu'r dull seiliedig-ar-risg ar gyfer archwilio mewnol.

Fe ymunodd dau Uwch Archwilydd newydd â'r tîm yn ystod 2018 ac mae'r tîm bellach yn cynnwys cyfoeth o brofiad archwilio mewnol ag allanol, ynghyd â chymysgedd wych o gymwysterau proffesiynol, yn cynnwys CIPFA², CIIA³, ACCA⁴ ac ACA⁵ a chymwysterau academaidd mewn Rheoli Newid, Busnes a Chyfrifyddiaeth.

Mae'r siart trefniant isod yn dangos y strwythur arfaethedig ar gyfer 2019-20:



² Chartered Institute of Public Finance and Accountancy

³ Chartered Institute of Internal Auditors

⁴ Association of Chartered Certified Accountants

⁵ Chartered Accountants Ireland

GWEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL

Mae amryw o ofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus y mae'n rhaid i ni eu bodloni wrth gynllunio gwaith archwilio mewnol.

Cynllunio Archwiliadau ar sail Risg

Mae Safon 2010 yn datgan bod rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu **cynllun yn seiliedig ar risg** i bennu'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad. Yn yr un modd, mae Safon 2120 yn datgan bod rhaid i'r gweithgarwch archwilio mewnol werthuso effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg a chyfrannu at eu gwella.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r angen i reoli risgiau wedi'i adnabod fel **rhan hanfodol o ymarfer llywodraethiant corfforaethol da**. Mae hyn wedi rhoi mwy a mwy o bwysau ar sefydliadau i adnabod yr holl risgiau busnes maent yn eu wynebu ac i egluro sut maent yn eu rheoli. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau sydd ynghlwm wrth reoli risgiau wedi'u hadnabod fel rhai sy'n chwarae rôl greiddiol a hanfodol wrth gynnal system gadarn o reolaeth fewnol.

Tra bod y cyfrifoldeb am adnabod a rheoli risgiau yn perthyn i'r rheolwyr, un o rolau allweddol archwilio mewnol yw darparu sicrwydd bod y risgiau hynny wedi cael eu rheoli'n briodol. Mae archwilio mewnol ar sail risg yn galluogi'r swyddogaeth archwilio mewnol i roi sicrwydd i'r *'rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu'* fod y prosesau rheoli risg yn rheoli risgiau'n effeithiol, mewn perthynas â'r parodrwydd i dderbyn risg. Mae hefyd, ar bob cam, yn ceisio atgyfnerthu cyfrifoldebau'r rheolwyr a'r aelodau etholedig i reoli risg.

O ganlyniad, y ffordd orau i weithgarwch archwilio mewnol proffesiynol gyflawni ei nod i fod yn gonglfaen llywodraethiant yw gosod ei waith yng nghyd-destun fframwaith rheoli risg y sefydliad ei hun. felly, **rydym wedi alinio ein gweithgarwch archwilio mewnol gyda'r gofrestr risg gorfforaethol.**

Mae archwilio mewnol ar-sail-risg yn ddull arloesol mewn ymarfer archwilio mewnol. Mae'n broses ddeinamig ac felly mae'n fwy anodd i'w rheoli na methodolegau traddodiadol. Mae monitro cynnydd yn erbyn cynllun sy'n newid yn gyson yn heriol. Fodd bynnag, mae'r enillion yn gorbwyso'r anawsterau hyn ac rydym wedi adolygu ein mesurau perfformiad i sicrhau bod yr anawsterau wrth fesur effeithiolrwydd archwilio mewnol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth ([caiff ei drafod yn nes ymlaen](#)).

Cydymffurfiaeth vs Sicrwydd

Yn draddodiadol, roedd archwilio yn canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gorffennol a sicrhau cydymffurfiaeth. **Y rheolwyr sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth** ac mae archwilio wedi esblygu i helpu sefydliadau i edrych ymlaen a mynd i'r afael â materion a allai effeithio ar berfformiad busnes.

Mae archwilio mewnol mewn sefyllfa unigryw yn y sefydliad i ddarparu sicrwydd eang i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ac uwch reolwyr ynghylch effeithiolrwydd prosesau llywodraethiant a risg mewnol ac i roi sicrwydd i gefnogi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Mae yna ffynonellau eraill o sicrwydd y gellir eu defnyddio hefyd i roi sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r model 'tair llinell amddiffyn'⁶ yn fframwaith y gellir ei defnyddio i ddod â'r ffynonellau sicrwydd hyn ynghyd, ac fe rydd sicrwydd i aelodau, rheoleiddwyr y sector ac archwilwyr allanol fod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Mae ein meddalwedd rheoli risg newydd (4risk) yn gyfleuster i allu cofnodi'r 'tair llinell' sicrwydd wahanol mewn un lle, a chaiff hyn ei gyflwyno yn 2019-20.

⁶ Llinell Gyntaf o Sicrwydd - gweithredu rheng flaen gan berchennog y rheolaeth; adroddiadau perfformiad i bwyllgorau/byrddau ac ati
 Ail Linell o Sicrwydd - rheolaeth gyffredinol gan y rheolwyr, rheolaeth ariannol (e.e. adroddiadau monitro gan swyddogaethau canolog eraill)
 Trydedd Llinell o Sicrwydd - sicrwydd cyffredinol yn cael ei ddarparu gan gyrrff rheoleiddio mewnol, allanol neu eraill

Twyll

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus mae'n rhaid i'r holl weithgaredd archwilio mewnol werthuso'r posibilrwydd o dwyll, a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).

Yn ystod 2019-20, byddwn yn adolygu sut mae'r Cyngor yn **mynd ati i weithio yn erbyn twyll, llwgrwobrwyath a llygredd, gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth**. Byddwn yn diweddarau'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn unol â hynny.

Gwella

Yn unol â Safon 2130, mae'n rhaid i'r gweithgaredd archwilio mewnol gynorthwyo'r sefydliad i gynnal rheolaethau effeithiol trwy werthuso eu heffeithiolrwydd a'u heffeithlonrwydd a thrwy **hyrwyddo gwelliant parhaus**.

Un o nodau Archwilio Mewnol yw helpu gwasanaethau i wella. Mae'n bosib felly nad archwiliadau traddodiadol fydd rhai o'r adolygiadau hyn ond prosiectau ymgynghori. Os dyna'r achos, bydd yr adroddiad perthnasol yn egluro nad archwiliad ydyw ac ni fydd yn cynnwys barn archwilio yn y ffordd arferol.

BLAENORIAETHAU

Yn hanesyddol, roedd y broses cynllunio archwiliadau yn y Cyngor yn defnyddio cynllun treigl tair blynedd. Roedd hyn yn cynnwys rhagweld pa adolygiadau archwilio fyddai'n rhaid eu gwneud dair blynedd o flaen llaw, oedd yn dasg anodd mewn amgylchedd sy'n newid yn gyson. Yn ogystal, daeth yr Asesiad Ansawdd Allanol a wnaed ym mis Mawrth 2017 i'r casgliad **nad oedd y dull hwn yn briodol mwyach**.

Er mwyn cael dull mwy hyblyg ac i gymryd i ystyriaeth y newidiadau yn y sefydliad ac yn yr amgylchedd risg, rydym wedi alinio ein gwaith gyda'r gofrestr risg gorfforaethol a byddwn yn cyfarfod gydag uwch reolwyr i drafod eu risgiau, pryderon a gofynion diweddaraf. Yn y ffordd yma, byddwn yn gwbl gyfredol ac yn ymwybodol o faterion newydd sy'n ymddangos, a byddwn yn gallu **canolbwyntio ein hadnoddau yn y meysydd lle mae'r pryder a'r risg mwyaf**.

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn cefnogi'r dull newydd hwn o weithio.

Felly, yn hytrach na chael cynllun archwilio blynyddol 'penodedig', bydd y cynllun yn newid yn ystod y flwyddyn yn dilyn newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol. O'r herwydd, nid yw'r Strategaeth yn darparu rhestr bendant o'r prosiectau y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod 2019-20 ond mae'n darparu'r archwiliadau y mae'r Cyngor wedi eu hadnabod fel ei brif flaenoriaethau am nawr. Mae [Atodiad A](#) yn rhestru'r blaenoriaethau cyfredol hyn. Bydd darpariaeth wrth gefn hefyd ar gyfer unrhyw waith *ad-hoc* y mae'r rheolwyr yn gwneud cais amdano yn ystod y flwyddyn.

Roedd y dull traddodiadol o gynllunio yn cynnwys amcangyfrif o nifer y dyddiau fyddai'n cael eu treulio ar bob archwiliad, ond yn aml iawn byddai hwn yn newid yn ystod y flwyddyn unwaith roedd y gwaith wedi cychwyn, felly nid oedd unrhyw fantais gwirioneddol iddo yn y cam cynllunio cychwynol. Mae'r dull newydd yn golygu mai dim ond dyddiau dangosol mae'r cynllun yn ei ddangos ar hyn o bryd, ond caiff ei gytuno gyda'r gwahanol wasanaethau unwaith mae'r cyfarfod sgopio-archwiliad cyntaf wedi digwydd ac y gwyddwn yn union beth fydd yr archwiliad yn ei gynnwys.

GWAITH DILYN I FYNY

Mae Safon 2500 yn datgan bod rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu proses dilyn-i-fyny i fonitro a sicrhau bod rheolwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau a godwyd neu fod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu.

Gallai blaenoriaethau sy'n cystadlu, cyfyngiadau'r gyllideb a ffactorau eraill atal rheolwyr rhag rhoi sylw i'r Risgiau/Materion o fewn yr amserlen y cytunwyd arni neu fel y dyluniwyd yn flaenorol i liniaru'r risg.

Mae Rheolwyr nad ydynt yn rhoi sylw i'r Risgiau/Materion sy'n codi o waith archwilio mewnol yn gwneud y sefydliad yn agored i risg. Trwy ddilyn i fyny, mae hyn yn gymorth i'w atal rhag dod yn broblem.

Yn unol â'n Siarter Archwilio Mewnol sydd wedi'i gytuno, byddwn yn dilyn i fyny yr holl Risgiau/Materion sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau archwilio sydd â gradd Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim' (mae'r diffiniadau o'r cyfraddau sicrwydd i'w cael yn [Atodiad B](#)). Pan fo adroddiadau'n parhau i ddenu gradd Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim' efallai y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn gwahodd y Pennaeth Gwasanaeth i fynychu cyfarfod i drafod yr adroddiad.

Byddwn yn helpu'r sefydliad i dracio gweithrediad yr holl gamau gweithredu ac yn cofnodi'r holl gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar system dracio fewnol (4action).

ADRODD

Bydd adroddiad newydd, byrrach un dudalen yn fodd i gael **protocol adrodd dwyieithog, newydd**, ac am y tro cyntaf bydd hynny'n galluogi i ni ddarparu adroddiadau archwilio mewnol terfynol (sydd wedi'u cytuno) i Ddeiliaid Portffolio y Pwyllgor Gwaith ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. Bydd hyn yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd ac yn gwella ansawdd y sicrwydd a roddwn.

Byddwn yn cofnodi'r cynlluniau gweithredu y cytunir arnynt mewn dogfen weithredol ar wahân, sy'n cael ei rhannu dim ond rhwng y gwasanaeth a ni.

Byddwn yn adrodd ar y cynnydd gyda chyflawni'r Strategaeth ac yn cael ein dal yn atebol am ein perfformiad wrth gyflawni'r Strategaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

MESURAU PERFFORMIAD

Mae gennym raglen sicrwydd ansawdd a gwella mewn lle i sicrhau bod ein gwasanaeth archwilio mewnol yn gwella'n barhaus. Byddwn yn mabwysiadu cyfres fyrrach o fesurau perfformiad i sefydlu pa mor effeithiol yw ein gwaith, a gellir gweld y rhain yn [Atodiad C](#).

Meincnodi


Yn allanol, pan fo hynny'n berthnasol, **byddwn yn parhau i feincnodi ein perfformiad yn erbyn ein cymheiriaid**. Mae meincnodi yn safon y gallwn fesur ein perfformiad yn ei erbyn. Mae'n gymorth i adnabod arfer orau, sy'n arwain at newidiadau sy'n gwneud gwasanaethau yn well. O ganlyniad, rydym yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn y 21 aelod arall o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru.

Mae'r rhain yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd am eu priodoldeb.

HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

Mae'r mwyafrif o aelodau'r tîm wedi cymhwyso'n broffesiynol, gyda chymysgedd dda o gymwysterau proffesiynol. **Bydd y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi** i sicrhau eu bod yn parhau â'u datblygiad proffesiynol ac yn aros yn gyfredol â'r risgiau diweddaraf a datblygiadau sy'n digwydd yn y sector.

Byddwn hefyd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant corfforaethol mandadol, pan fo angen. Fel cyfanswm, bydd y gwasanaeth yn buddsoddi 100 diwrnod (7.7%) mewn hyfforddiant a datblygiad yn ystod 2019-20, sy'n cynnwys y canlynol:



HERIAU WRTH SYMUD YMLAEN

Mewn tîm bychan, gall absenoldeb staff gael effaith sylweddol. Yn 2018-19, roedd dwy swydd wag ac un absenoldeb tymor hir, felly roedd hyn wedi lleihau'n fawr yr adnodd oedd ar gael i gyflawni'r gweithgaredd archwilio mewnol. O ganlyniad, roeddem yn bell o gyrraedd ein targed o gyflawni 80% o'r gwaith ar y risgiau coch ac ambr oedd yn weddill ar y gofrestr risg gorfforaethol.

Bydd absenoldeb mamolaeth yn effeithio ar hanner cyntaf 2019-20 ac yn gostwng ein capasiti. Fodd bynnag, bydd hon y drydedd blwyddyn yn ei swydd i'r Pennaeth Archwilio a Risg a'r ail flwyddyn o weithredu'r fethodoleg archwilio newydd. Mae'r profiad o'r flwyddyn ddiwethaf wedi darparu gwersi gwerthfawr; bydd tîm newydd, brwdfrydig ac ymroddedig, a meddalwedd rheoli risg newydd, yn rhoi'r tîm archwilio mewnol mewn **sefyllfa dda i sicrhau ei fod yn cyflawni ei strategaeth ac i barhau i cefnogi'r Cyngor fel cydran allweddol o'i strwythur llywodraethiant.**

Bydd cyflawni'r Strategaeth hon yn galluogi'r Pennaeth Archwilio a Risg i fodloni'r gofyn i gynhyrchu barn archwilio mewnol flynyddol, i **gefnogi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.**

ATODIAD A: BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL 2019-20

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Gradd risg gorfforaethol (gweddilliol)	Dyddiau Dangosol 2019-20
AR DRAWS Y GORFFORAETH				
Corfforaethol	Parhad Busnes	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM9	10
Corfforaethol	Diwygio Lles	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM10	10
Corfforaethol	Diogelu Corfforaethol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D2 YM11	10
Corfforaethol	Cynllunio Corfforaethol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM13	15
Corfforaethol	Cynllunio Cyllid	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM19	15
Corfforaethol	CONTEST (Atal Terfysgaeth a Rhwystro Radicaleiddio)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	E1 YM27	10
Corfforaethol	Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM31	10
Corfforaethol	Safonau Diogelwch Data Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D1 YM34	15
Corfforaethol	Proses gadael	Pryderon a godwyd	d/b	15
Corfforaethol	Rheoli Risg	Gofyniad PSIAS	d/b	10
Corfforaethol	Rheoli'r Risg o Dwyll	Gofyniad PSIAS	d/b	20
Corfforaethol	Diwylliant - Diogelu Enw Da a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol.	Sganio'r gorwel	d/b	10
Corfforaethol	Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae'n destun adolygiad penodol gan SAC.	d/b	5

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Gradd risg gorfforaethol (gweddilliol)	Dyddiau Dangosol 2019-20
Corfforaethol	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Gofynion Rhan 9	Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu. Estyniad gan Lywodraeth Cymru i weithredu cyllidebau cyfun.	d/b	5
ADNODDAU				
Adnoddau	Adfer a Dileu Dyledion	System Ariannol Allweddol – pryderon A151	d/b	10
Adnoddau	Caffael Corfforaethol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D2 / D2 YM20 YM22	10
Adnoddau	Cardiau Caffael Corfforaethol	Pryderon a godwyd	d/b	20
Adnoddau	Cyflogau	System Ariannol Allweddol – ailstrwythuro a system newydd; sicrwydd archwiliad allanol	d/b	20
BUSNES Y CYNGOR				
Gwasanaethau Cyfreithiol	Cofrestru Tir	Pryderon a Godwyd	d/b	15
TRAWSNEWID				
TGCh	Archwiliad TG – Seiberddiogelwch (Cyfrifiaduro Cloud)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1 YM28	15
TGCh	Archwiliad TG – Diogelwch TG	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1 YM38	15
Adnoddau Dynol	Recriwtio a Chadw Staff	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM5	10
Adnoddau Dynol	Diwylliant y Gweithle – Gwahaniaethu ac Anghydraddoldeb Ymysg Staff	Sganio'r gorwel	d/b	10
RHEOLEIDDO A DATBLYGU ECONOMAIDD				
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Rhaglen Ynys Egni	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2/D2 YM16 YM17	20

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Gradd risg gorfforaethol (gweddilliol)	Dyddiau Dangosol 2019-20
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden – Buddsoddi mewn Cyfleusterau	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B3 YM32	10
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth	Cais gan y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol mawr (cariwyd ymlaen o 2018/19)	d/b	15
PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO				
Eiddo	Cofrestr Asedau	Pryderon a godwyd	d/b	10
Priffyrdd	Pontydd	Scanio'r Gorwel	d/b	10
TAI				
Tai	Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM29	10
GWASANAETHAU OEDOLION				
Gwasanaethau Oedolion	Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM25	10
Gwasanaethau Oedolion	Gofal Iechyd Parhaus	Sganio'r Gorwel	d/b	10
GWASANAETHAU PLANT				
Gwasanaethau Plant	Bwrdd Darparu Gwasanaethau Integredig	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM36	10
Gwasanaethau Plant	Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D2 YM37	10
DYSGU				
Ysgolion Uwchradd	Darpariaeth Chweched Dosbarth	Newidiadau	d/b	20
	CYFANSWM DYDDIAU ARCHWILIO			400
DYDDIAU Y GELLIR CODI AMDANYNT AC NAD YDYNT WEDI EU CYNNWYS YN Y RHAGLEN (CYNHYRCHIOL)				
	Gwaith Dilyn-i-fyny	Mae angen dilyn-i-fyny nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig		60
	Gwaith Gwrth-dwyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol			40
	Atgyfeiriadau			50
	Cau Gwaith y Flwyddyn Flaenorol			10

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Gradd risg gorfforaethol (gweddilliol)	Dyddiau Dangosol 2019-20
	Ardystio Grantiau: Grant Gwisg Ysgol Grant Rhentu Doeth Cymru Grant Gwella Addysg Grant Datblygu Disgyblion Chweched Dosbarth a Dysgu Parhaus i Oedolion	Gofyniad Grant		20
	Ymgynghoriaeth gorfforaethol			55
	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys hyfforddiant i aelodau a hunanasesu			40
	Adolygiad Rheoli			25
	Wrth Gefn			26
	CYFANSWM			306
DYDDIAU NA ELLIR CODI AMDANYNT (ANGHYNHYRCHIOL)				
	Risg ac Yswiriant			24
	Gweinyddiaeth Gyffredinol			48
	Datblygiad ac Adolygiad Personol, Cyfarfodydd Un i Un a Chyfarfodydd Tîm			48
	Rheolwyr, gan gynnwys cysylltu ag Archwilwyr Allanol a pharatoi'r cynllun archwilio			40
	Gwyliau Blynyddol, gan gynnwys gwyliau statudol, gwyliau arbennig a salwch			342
	Hyfforddi a Datblygu staff			100
	CYFANSWM			594
	CYFANSWM YR ADNODD SYDD EI ANGEN			1300
	YR ADNODDAU SYDD AR GAEL			1300
	DIFFYG			0
	CYNHYRCHIANT			55%

ATODIAD B: DIFFINIAD O'R GRADDAU SICRWYDD

Lefel Sicrwydd	Diffiniad	Ymyrraeth gan Reolwyr
Sicrwydd Sylweddol	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda.</p> <p>Ni wnaethom ganfod unrhyw Faterion/Risgiau sylweddol neu o bwys.</p>	<p>Dim ond gweithredu lefel isel sydd ei angen gan reolwyr, os o gwbl.</p> <p>Materion/Risgiau, y gall rheolwyr roi sylw'n hawdd iddynt.</p>
Sicrwydd Rhesymol	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a/neu rheolaeth fewnol yn rhesymol.</p> <p>Rhai anghysonderau wrth gymhwyso'r uchod, ac mae yna dal gyfleoedd i liniaru rhag risgiau pellach.</p>	<p>Mae angen gweithredu lefel isel i gymedrol gan reolwyr.</p> <p>Materion/Risgiau, y gall rheolwyr roi sylw iddynt ar lefel gwasanaeth.</p>
Sicrwydd Cyfyngedig	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig.</p> <p>Mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw'r gwasanaeth yn cwrdd â'i amcanion neu mae'n eu cyrraedd heb gyflawni gwerth am arian.</p>	<p>Mae angen gweithredu lefel uchel i gymedrol gan reolwyr.</p> <p>Materion/Risgiau, y mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen rhoi gwybod i'r UDA.</p>
Dim Sicrwydd	<p>Mae diffygion sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol.</p> <p>Mae'r rheolaethau allweddol yn annigonol ac mae o leiaf un fecanwaith reolaeth gritigol ar goll. Mae angen hefyd gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau presennol ac rydym wedi canfod gwallau a phethau ar goll.</p>	<p>Mae angen gweithredu lefel uchel gan reolwyr mewn nifer o feysydd.</p> <p>Materion/Risgiau sydd angen sylw ar unwaith gan yr UDA, gydag ymyrraeth gan y Pwyllgor Gwaith o bosib.</p>

ATODIAD C: MESURAU PERFFORMIAD A MEINCNODI GYDA GRWP PRIF ARCHWILWYR CYMRU (WCAG)

Dangosydd Perfformiad	Targed 2019/20	Gwir Berfformiad 2018/19 (at Ch3)	Gwir Berfformiad 2017/18	Cyfartaledd WCAG 2017/18
Risgiau Coch ac Ambr sy'n Weddill yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol sydd wedi cael eu harchwilio	80%	29%	Heb ei Fesur	Heb ei Fesur
Ymatebion cleientiaid - o leiaf 'bodlon'	100%	100%	100%	98%
Holiaduron Cwsmeriaid a Ddychwelwyd	65%	63%	41%	65%
Wedi adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant o fewn y targed	80%	87%	76%	Heb ei Fesur
Archwiliadau wedi'u cwblhau o fewn yr amser a gynlluniwyd	90%	100%	86%	73%
Nifer y staff	5	4.0 cyfwerth ag amser llawn	4.3 cyfwerth ag amser llawn	7

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	12 CHWEFROR 2019
TEITL YR ADRODDIAD	CYMERADWYO'R DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT
PWRPAS YR ADRODDIAD:	GOFYN I'R PWYLLGOR NEWID Y BROSES AR GYFER CYMERADWYO'R DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT
ADRODDIAD GAN:	MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
GWEITHREDU:	AR GYFER PENDERFYNIAD

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Rhydd Cyfansoddiad y Cyngor ddyletswydd ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i “Adolygu a chraffu Datganiad Cyfrifon y Cyngor cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn gan sicrhau y glynwyd wrth y polisïau cyfrifo priodol a bod yr holl bryderon a gyfyd o'r datganiad ariannol neu'r archwiliad yn cael eu dwyn at sylw'r Cyngor drwy gyfrwng adroddiadau ac argymhellion priodol.”
- 1.2 Cafodd y rhan hon o Gyfansoddiad y Cyngor ei hail-ddatgan yn y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018.
- 1.3 Ar lefel ymarferol, mae'r swyddogaeth hon wedi bod yn cael ei chyflawni mewn dau gam:-
- Cyn llofnodi'r cyfrifon drafft a'u cyflwyno i'w harchwilio, mae'r Pwyllgor wedi craffu'r datganiad ariannol drafft ac wedi penderfynu a ddylid derbyn a nodi'r datganiad ariannol drafft cyn ei gyflwyno i'w archwilio. Mae'r broses hon yn digwydd yn ystod wythnos olaf mis Mehefin oherwydd rhaid cyhoeddi'r datganiadau drafft erbyn 30 Mehefin.
 - Caiff y Datganiad Ariannol terfynol, yn dilyn cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon, ynghyd ag adroddiad yr Archwiliwr Allanol, eu hystyried gan y Pwyllgor ganol mis Medi ac yna mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cyngor llawn a ddylid derbyn y datganiadau ariannol ai peidio. Rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r datganiadau ariannol a rhaid i'r Archwiliwr Allanol eu cymeradwyo erbyn 30 Medi.

2. NEWIDIADAU I'R AMSERLEN ADRODD

- 2.1 Caiff yr amserlen adrodd ei hamlinellu yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018. Amlinellir yr amserlen ddiwygiedig yn y tabl isod:-

Yr Amserlen ar gyfer Cyhoeddi Datganiadau Ariannol Drafft a Therfynol

	Y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth			
	2018	2019	2020	2021 Ymlaen
Cwblhau'r datganiadau ariannol drafft	15 Mehefin	31 Mai	31 Mai	14 Mai
Cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor Archwilio	20 Mehefin	4 Mehefin	3 Mehefin	18 Mai
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio	27 Mehefin	11 Mehefin	10 Mehefin	25 Mai
Cyhoeddi'r datganiadau ariannol drafft	30 Mehefin	15 Mehefin	15 Mehefin	31 Mai
Cwblhau'r datganiadau ariannol terfynol	8 Medi	23 Awst	22 Awst	10 Gorffennaf
Cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor Archwilio	12 Medi	27 Awst	26 Awst	14 Gorffennaf
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio	19 Medi	3 Medi	2 Medi	21 Gorffennaf
Cyfarfod y Cyngor llawn	25 Medi	10 Medi	9 Medi	28 Gorffennaf
Cyhoeddi'r datganiadau ariannol wedi eu harchwilio	30 Medi	15 Medi	15 Medi	31 Gorffennaf

- 2.2** Bydd yr amserlen ddiwygiedig hon yn heriol iawn, y bydd gofyniad i gwblhau'r cyfrifon drafft terfynol erbyn 14 Mai, dim ond 6 wythnos ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, yn anodd iawn i'r staff perthnasol. Yn ychwanegol at hyn, gallai'r rheidrydd i'w cwblhau erbyn canol mis Mai effeithio'n andwyol ar gywirdeb ac ansawdd y datganiadau ariannol drafft a gallai arwain at fwy o waith archwilio allanol ac addasiadau iddynt yn dilyn yr archwiliad.
- 2.3** Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chôd Ymarfer cysylltiedig CIPFA, nid oes angen i Bwyllgor o'r Cyngor gymeradwyo'n ffurfiol y datganiadau ariannol drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi a'u cyflwyno ar gyfer eu harchwilio. Dywed Rheoliad 10 (1):-

"The responsible financial officer of a larger relevant body must, no later than the {prescribed date} immediately following the end of a year, sign and date the statement of accounts, and certify that it presents a true and fair view of the financial position of the body at the end of the year to which it relates and of that body's income and expenditure for that year".

3. Y NEWID ARFAETHEDIG I'R BROSES GYMERADWYO

- 3.1** Yn wyneb yr amserlen fyrrach a fydd ar gael i gwblhau'r datganiadau ariannol drafft a'r anawsterau ymarferol y bydd hyn yn eu creu, cynigir bod y datganiadau ariannol drafft yn cael eu llofnodi gan y Swyddog Adran 151 (sef y Swyddog Ariannol Cyfrifol) a'u cyflwyno ar gyfer eu harchwilio cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Rhydd hyn yr amserlen ddiwygiedig ganlynol:-

Yr Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer Cyhoeddi'r Datganiad Ariannol Drafft a Therfynol

	Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth		
	2019	2020	2021 Ymlaen
Cwblhau'r datganiadau ariannol drafft	15 Mehefin	15 Mehefin	31 Mai
Cyhoeddi'r datganiadau ariannol drafft	15 Mehefin	15 Mehefin	31 Mai
Cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor Archwilio	19 Mehefin	17 Mehefin	23 Mehefin
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio	26 Mehefin	24 Mehefin	30 Mehefin
Cwblhau'r datganiadau ariannol drafft	23 Awst	22 Awst	10 Gorffennaf
Cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor Archwilio	27 Awst	26 Awst	14 Gorffennaf
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio	3 Medi	2 Medi	21 Gorffennaf
Cyfarfod y Cyngor llawn	10 Medi	9 Medi	28 Gorffennaf
Cyhoeddi'r datganiadau ariannol wedi eu harchwilio	15 Medi	15 Medi	31 Gorffennaf

3.2 Byddai'r newidiadau y bwriedir eu gwneud yn caniatáu 2 wythnos ychwanegol ar gyfer cwblhau'r datganiadau ariannol drafft.

4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r newid i'r amserlen a chaniatáu i'r Swyddog Adran 151 lofnodi'r datganiadau ariannol drafft cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

This page is intentionally left blank



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

BLAENRAGLEN WAITH

Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

12 Chwefror 2019

Swyddog Cyswllt:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg
E-bost:	MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Ffôn:	01248 756211

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Ebrill 2019 Mehfin 2019 Gorffennaf 2019 Medi 2019 Rhagfyr 2019 Chwefror 2020	Diweddariad Archwilio Mewnol <ul style="list-style-type: none"> Diweddariad ar y cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol o ran sut mae'n cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant. 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Ebrill 2019 Mehfin 2019 Gorffennaf 2019 Medi 2019 Rhagfyr 2019 Chwefror 2020	Adroddiad Cynnydd Archwilio Allanol <ul style="list-style-type: none"> Diweddariad ar waith Archwilio Allanol: <ul style="list-style-type: none"> Archwiliad ar Berfformiad Archwiliad Ariannol 	Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru Alan.Thomas@audit.wales Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloitte cedge@deloitte.co.uk
Ebrill 2019	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Adroddiad y Cadeirydd <ul style="list-style-type: none"> Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn 	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Mehfin 2019	Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2018/19 <ul style="list-style-type: none"> Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2018/19 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2019/20. 	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Mehefin 2019	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19 <ul style="list-style-type: none"> Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i'w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae'n rhaid i'r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg ar gasgliad y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod 2018/19. 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Mehefin 2019	Adroddiad Blynyddol Perfformiad Yswiriant 2018/19 <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad perfformiad blynyddol ar weithgaredd yswiriant 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Gorffennaf 2019	Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2018/19 <ul style="list-style-type: none"> Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn ofyniad yng ngweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n ymwneud â gweithgareddau'r trysorlys am y flwyddyn 2018/19. 	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Medi 2019 Chwefror 2020	Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sy'n Weddill <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad manwl o'r holl faterion/risgiau archwilio mewnol sy'n weddill 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Medi 2019 Chwefror 2020	Cofrestr Risg Gorfforaethol <ul style="list-style-type: none"> Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, ofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau. 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk Rheolwr Yswiriant a Risg JulieJones@ynysmon.gov.uk

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Medi 2019 Chwefror 2020	Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol <ul style="list-style-type: none"> Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor. 	Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
Medi 2019	Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2018/19 Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu felly: <ul style="list-style-type: none"> gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2018/19, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2018/19, derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol. 	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Medi 2019	Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad blynyddol y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh ynghylch diogelwch data digidol/bygythiadau i'r Cyngor o ran seiber-ddiogelwch a'r trefniadau sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny. 	Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh JohnThomas@ynysmon.gov.uk
Medi 2019	Adroddiad Blynyddol Iechyd a diogelwch corfforaethol 2018/19 <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd 	Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol StephenNicol@ynysmon.gov.uk

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Medi 2019	Siarter Archwilio Mewnol <ul style="list-style-type: none"> Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Siartr Archwilio Mewnol, y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei gymeradwyo. Er nad oes angen ei adolygu'n llawn ac yn ffurfiol tan 2021, bydd y Siarter yn cael ei diweddarau ar gyfer newidiadau i'r dull archwilio mewnol. 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Rhagfyr 2019	Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu <ul style="list-style-type: none"> Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd i weld a yw'n briodol, gan roi ystyriaeth i ganllawiau'r sector ac anghenion y Cyngor. 	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Rhagfyr 2019	Adolygiad o'r Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risg <ul style="list-style-type: none"> Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor. 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Rhagfyr 2019	Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reolaeth Trysorlys ar gyfer 2019/20 <ul style="list-style-type: none"> Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymhell y dylai awdurdodau lleol, fel gofyniad sylfaenol, adrodd ar y sefyllfa canol blwyddyn o ran rheoli'r trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol ar fuddsoddiadau a benthyca. 	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Chwefror 2020	Strategaeth Archwilio Mewnol 2020/21 <ul style="list-style-type: none"> Yn unol â'r safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (2017), rhaid i'r prif swyddog archwilio gyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu cymeradwyo 	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Chwefror 2020	<p>Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 a'r Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2020/21</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli CIPFA mewn perthynas ag Arferion Rheoli Trysorlys yn argymhell y dylai awdurdodau lleol adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar eu strategaeth a chynllun rheoli, cyn cychwyn y flwyddyn. • Bydd yr adroddiad yn sôn am y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol ar gyfer 2020/21 yn unol â gofynion y Côt Darbodus. 	<p>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 MarcJones@ynysmon.gov.uk</p>

DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

(*Teitl yr Adroddiad: /Title of Report:*)

PRAWF BUDD Y CYHOEDD PUBLIC INTEREST TEST

Paragraff(au) Paragraph(s)	Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972
14 & 16	
Y PRAWF – THE TEST	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.</p> <p>The matter concerns the business affairs of the Council.</p>	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.</p> <p>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/llai o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank